| **<u>PAP 1 Bloc 2 (6.1.20 – 7.2.20)</u>**<br><br>**Dyddiol:** Adborth anffurfiol wedi ei ddarparu gan staff addysgu sy'n rhan o'r lleoliad – yn y dyddlyfr dysgu.<br><br>**Wythnosol:** Adolygiad Diwedd Wythnos – mae'r athro dan hyfforddiant a'r Mentor Dosbarth/Pwnc yn cyfarfod i drafod cynnydd a phennu targedau mesuradwy.<br><br>Cedwir yr Adolygiad Diwedd Wythnos yn Llawlyfr PDPA ar y PDP ac mae gofyn i athrawon dan hyfforddiant anfon dolen a ddiweddarwyd at eu Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) a'r Mentor Dosbarth/Pwnc /Uwch Fentor bob wythnos.<br><br>**Diwedd y Lleoliad (7.2.20):**<br>i. Cydarsylwi – sy'n cynnwys o leiaf dau o'r canlynol: Mentor Dosbarth/Pwnc, Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol), Arweinydd Rhwydwaith;<br>ii. Adolygu'r dystiolaeth a gasglwyd ar PDP yr athro dan hyfforddiant;<br>iii. Rhannu adroddiad interim a gwblheir gan y Mentor Dosbarth/Pwnc / Uwch Fentor, â'r athro dan hyfforddiant a'i lanlwytho ar y wefan (i gynnwys cyfeiriad at y cynnydd a gydnabyddir yn nau floc y PAP). | **<u>BA2 PAP2 Bloc 1 (4.11.19 – 13.12.19)</u>**<br><br>**Dyddiol:** Adborth anffurfiol wedi ei ddarparu gan staff addysgu sy'n rhan o'r lleoliad – yn y dyddlyfr dysgu.<br><br>**Wythnosol:** Adolygiad Diwedd Wythnos – mae'r athro dan hyfforddiant a'r Mentor Dosbarth/Pwnc yn cyfarfod i drafod cynnydd a phennu targedau mesuradwy.<br><br>Cedwir yr Adolygiad Diwedd Wythnos yn Llawlyfr PDPA ar y PDP ac mae gofyn i athrawon dan hyfforddiant anfon dolen a ddiweddarwyd at eu Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) a'r Mentor Dosbarth/Pwnc /Uwch Fentor bob wythnos.<br><br>**Diwedd Bloc (13.12.19):**<br>Rhannu Adolygiad Canol Lleoliad gan y Mentor Dosbarth/Pwnc /Uwch Fentor, â'r athro dan hyfforddiant a'i lanlwytho ar y wefan.<br><br>**<u>Bloc 2 (6.1.20 – 7.2.20)</u>**<br><br>**Dyddiol:** Adborth anffurfiol wedi ei ddarparu gan staff addysgu sy'n rhan o'r lleoliad – yn y dyddlyfr dysgu.<br><br>**Wythnosol:** Adolygiad Diwedd Wythnos – mae'r athro dan hyfforddiant a'r Mentor Dosbarth/Pwnc yn cyfarfod i drafod cynnydd a phennu targedau mesuradwy.<br><br>Cedwir yr Adolygiad Diwedd Wythnos yn Llawlyfr PDPA ar y PDP ac mae gofyn i athrawon dan hyfforddiant anfon dolen a ddiweddarwyd at eu Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) a'r Mentor Dosbarth/Pwnc /Uwch Fentor bob wythnos. |

| | |
|---|---|
| | **Diwedd y Lleoliad (7.2.20):**<br>i. Cydarsylwi – sy'n cynnwys o leiaf dau o'r canlynol: Mentor Dosbarth/Pwnc, Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol), Arweinydd Rhwydwaith;<br>ii. Adolygu'r dystiolaeth a gasglwyd ar PDP yr athro dan hyfforddiant;<br>iii. Rhannu adroddiad interim a gwblheir gan y Mentor Dosbarth/Pwnc / Uwch Fentor, â'r athro dan hyfforddiant a'i lanlwytho ar y wefan (i gynnwys cyfeiriad at y cynnydd a gydnabyddir yn nau floc y PAP). |
| **PAP2 (16.3.20 – 16.6.20)**<br><br>**Dyddiol:** Adborth anffurfiol wedi ei ddarparu gan staff addysgu sy'n rhan o'r lleoliad – yn y dyddlyfr dysgu.<br><br>**Wythnosol:** Adolygiad Diwedd Wythnos – mae'r athro dan hyfforddiant a'r Mentor Dosbarth/Pwnc yn cyfarfod i drafod cynnydd a phennu targedau mesuradwy.<br><br>Cedwir yr Adolygiad Diwedd Wythnos yn Llawlyfr PDPA ar y PDP ac mae gofyn i athrawon dan hyfforddiant anfon dolen a ddiweddarwyd at eu Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) a'r Mentor Dosbarth/Pwnc /Uwch Fentor bob wythnos.<br><br>**Erbyn 1.5.20:** Rhannu Adolygiad Canol Lleoliad wedi ei gwblhau gan y Mentor Dosbarth/Pwnc /Uwch Fentor, â'r athro dan hyfforddiant a'i lanlwytho ar y wefan.<br><br>**Cyfnod Olaf Adolygu SAC (1.6.20 – 16.6.20):**<br>• Cydymweliad a Aseswyd – yn cynnwys Mentor Dosbarth/Pwnc /Uwch Fentor (Proffesiynol neu Gwricwlwm), sy'n cynnwys:<br>• Cydarsylwi;<br>• Cyfarfod Adolygu Tystiolaeth: yr athro dan hyfforddiant i gyflwyno PDP a chynnal deialog adfyfyriol â'r mentor a'r tiwtor;<br>• Derbyn PDP a llenwi Ffurflen Dystiolaeth SAC. | **BA3 PAP3 (23.3.20 – 16.6.20)**<br><br>**Dyddiol:** Adborth anffurfiol wedi ei ddarparu gan staff addysgu sy'n rhan o'r lleoliad – yn y dyddlyfr dysgu.<br><br>**Wythnosol:** Adolygiad Diwedd Wythnos – mae'r athro dan hyfforddiant a'r Mentor Dosbarth/Pwnc yn cyfarfod i drafod cynnydd a phennu targedau mesuradwy.<br><br>Cedwir yr Adolygiad Diwedd Wythnos yn Llawlyfr PDPA ar y PDP ac mae gofyn i athrawon dan hyfforddiant anfon dolen a ddiweddarwyd at eu Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) a'r Mentor Dosbarth/Pwnc /Uwch Fentor bob wythnos.<br><br>**Erbyn 8.5.20:** Rhannu Adolygiad Canol Lleoliad wedi ei gwblhau gan y Mentor Dosbarth/Pwnc /Uwch Fentor, â'r athro dan hyfforddiant a'i lanlwytho ar y wefan.<br><br>**Cyfnod Olaf Adolygu SAC (1.6.20 – 16.6.20):**<br>• Cydymweliad a Aseswyd – yn cynnwys Mentor Dosbarth/Pwnc /Uwch Fentor (Proffesiynol neu Gwricwlwm), sy'n cynnwys:<br>• Cydarsylwi;<br>• Cyfarfod Adolygu Tystiolaeth: yr athro dan hyfforddiant i gyflwyno PDP a chynnal deialog adfyfyriol â'r mentor a'r tiwtor;<br>• Derbyn PDP a llenwi Ffurflen Dystiolaeth SAC. |

## TAR: Asesiad SAC ar amrantiad – beth sydd ei angen, erbyn pryd?

| TAR PAP1 Rhan 1 Dyddiad w/d | Dyddlyfr Dysgu | Dolen PDP wedi ei rhannu | Gwirio'r ffeil addysgu | | Adolygiad diwedd wythnos | Adolygiad canol lleoliad | Ffurflen cydarsylwi | Adroddiad interim | Cydymwelia d a Aseswyd | Adolygiad o'r dystiolaeth ar gyfer cyfarfod SAC | Ffurflen Dystiolaeth SAC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21/10/19 | ✓ | mynediad wedi ei sefydlu | ✓ | sefydlu | x | x | x | x | x | x | x |
| 04/11/19 | ✓ | ✓ | ✓ | cynllunio | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 11/11/19 | ✓ | ✓ | ✓ | llythrenne dd personol | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 18/11/19 | ✓ | ✓ | ✓ | adfyfyrio | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 25/11/19 | ✓ | ✓ | ✓ | targedau personol | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 2/12/19 | ✓ | ✓ | ✓ | gwirio bod y ffeil yn gyflawn | x | ✓ | x | x | x | x | x |
| TAR PAP1 Rhan 2 Dyddiad w/d | Dyddlyfr Dysgu | Dolen PDP wedi ei rhannu | Gwirio'r ffeil addysgu | | Adolygiad diwedd wythnos | Adolygiad canol lleoliad | Ffurflen cydarsylwi | Adroddiad interim | Cydymwelia d a Aseswyd | Adolygiad o'r dystiolaeth ar gyfer cyfarfod SAC | Ffurflen Dystiolaeth SAC |
| 06/01/20 | ✓ | mynediad wedi ei sefydlu | ✓ | diweddar iad | x | x | x | x | x | x | x |
| 13/01/20 | ✓ | ✓ | ✓ | cynllunio | ✓ | x | x | x | x | x | x |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 20/01/20 | ✓ | ✓ | ✓ | adfyfyrio | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 27/01/20 | ✓ | ✓ | ✓ | targedau personol | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 3/02/20 | ✓ | ✓ | ✓ | gwirio bod y ffeil yn gyflawn | x | x | ✓ | ✓ | x | x | x |
| TAR PAP2<br><br>Dyddiad w/d | Dyddlyfr Dysgu | Dolen PDP wedi ei rhannu | Gwirio'r ffeil addysgu | | Adolygiad diwedd wythnos | Adolygiad canol lleoliad | Ffurflen cydarsylwi | Adroddiad interim | Cydymweliad a Aseswyd | Adolygiad o'r dystiolaeth ar gyfer cyfarfod SAC | Ffurflen Dystiolaeth SAC |
| 16/03/20 | ✓ | mynediad wedi ei sefydlu | ✓ | sefydlu | x | x | x | x | x | x | x |
| 23/03/20 | ✓ | ✓ | ✓ | cynllunio | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 30/03/20 | ✓ | ✓ | ✓ | llythrennedd personol | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 20/04/20 | ✓ | ✓ | ✓ | adfyfyrio | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 27/04/20 | ✓ | ✓ | ✓ | targedau personol | x | ✓ | x | x | x | x | x |
| 04/05/20 | ✓ | ✓ | ✓ | tracio | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 11/05/20 | ✓ | ✓ | ✓ | tracio | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 18/05/20 | ✓ | ✓ | ✓ | tystiolaeth ar gyfer SAC | ✓ | x | x | x | x | x | x |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01/06/20 08/06/20 | ✓ | ✓ | ✓ | Gwirio bod y ffeil yn gyflawn | ✓ | x | ✓ | x | ✓ | ✓ | x |
| 15/06/20 a 16/06/20 | ✓ | ✓ | ✓ | CEP | x | x | x | x | x | x | ✓ |

If needed, Contingency Processes should be in place by 27/04/20.

## BA1, BA2 a BA3: Asesiad SAC ar amrantiad – beth sydd ei angen, erbyn pryd?

| BA1<br><br>Dyddiad w/d | Dyddlyfr Dysgu | Dolen PDP wedi ei rhannu | Gwirio'r ffeil addysgu | | Adolygiad diwedd wythnos | Adolygiad canol lleoliad | Ffurflen cydarsylwi | Adroddiad interim | Cydymweliad a Aseswyd | Adolygiad o'r dystiolaeth ar gyfer cyfarfod SAC | Ffurflen Dystiolaeth SAC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 24/02/20 | ✓ | mynediad wedi ei sefydlu | ✓ | sefydlu | x | x | x | x | x | x | x |
| 02/03/20 | ✓ | ✓ | ✓ | cynllunio | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 09/03/20 | ✓ | ✓ | ✓ | llythrennedd personol | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 16/03/20 | ✓ | gwirio cynnydd | ✓ | adfyfyrio | x | x | ✓ | ✓ | x | x | x |

| BA2<br>Rhan 1<br>Dyddiad w/d | Dyddlyfr Dysgu | Dolen PDP a rannwyd | Gwirio’r ffeil addysgu | | Adolygiad diwedd wythnos | Adolygiad canol lleoliad | Ffurflen cydarsylwi | Adroddiad interim | Cydymwelia d a Aseswyd | Adolygiad o’r dystiolaeth ar gyfer cyfarfod SAC | Ffurflen Dystiolaeth SAC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 04/11/19 | ✓ | mynediad wedi ei sefydlu | ✓ | sefydlu a thargedau o BA1 | x | x | x | x | x | x | x |
| 11/11/19 | ✓ | ✓ | ✓ | cynllunio | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 18/11/19 | ✓ | ✓ | ✓ | llythrenne dd personol | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 25/11/19 | ✓ | ✓ | ✓ | adfyfyrio | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 2/12/19 | ✓ | ✓ | ✓ | targedau personol | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 9/12/19 | ✓ | ✓ | ✓ | Gwirio bod y ffeil yn gyflawn | x | ✓ | x | x | x | x | x |
| BA2<br>Rhan 2<br>Dyddiad w/d | Dyddlyfr Dysgu | Dolen PDP wedi ei rhannu | Gwirio’r ffeil addysgu | | Adolygiad diwedd wythnos | Adolygiad canol lleoliad | Ffurflen cydarsylwi | Adroddiad interim | Cydymwelia d a Aseswyd | Adolygiad o’r dystiolaeth ar gyfer cyfarfod SAC | Ffurflen Dystiolaeth SAC |
| 06/01/20 | ✓ | gwirio bod mynediad wedi ei sefydlu | ✓ | diweddar iad | x | x | x | x | x | x | x |
| 13/01/20 | ✓ | ✓ | ✓ | cynllunio | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 20/01/20 | ✓ | ✓ | ✓ | adfyfyrio | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 27/01/20 | ✓ | ✓ | ✓ | targedau personol | ✓ | x | x | x | x | x | x |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3/02/20 | ✓ | ✓ | ✓ | Gwirio bod y ffeil yn gyflawn | x | x | ✓ | ✓ | x | x | x |

| BA3<br><br>Dyddiad w/d | Dyddlyfr Dysgu | Dolen PDP wedi ei rhannu | Gwirio'r ffeil addysgu | | Adolygiad diwedd wythnos | Adolygiad canol lleoliad | Ffurflen cydarsylwi | Adroddiad interim | Cydymweliad a Aseswyd | Adolygiad o'r dystiolaeth ar gyfer cyfarfod SAC | Ffurflen Dystiolaeth SAC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 23/03/20 | ✓ | sefydlu mynediad | ✓ | sefydlu a thargedau o BA2 | x | x | x | x | x | x | x |
| 20/04/20 | ✓ | ✓ | ✓ | cynllunio | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 27/04/20 | ✓ | ✓ | ✓ | llythrennedd personol | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 04/05/20 | ✓ | ✓ | ✓ | adfyfyrio a thargedau personol | x | ✓ | x | x | x | x | x |
| 11/05/20 | ✓ | ✓ | ✓ | tracio | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 18/05/20 | ✓ | ✓ | ✓ | tracio | ✓ | x | x | x | x | x | x |
| 01/06/20<br>08/06/20 | ✓ | ✓ | ✓ | Gwirio bod y ffeil yn gyflawn | ✓ | x | ✓ | x | ✓ | ✓ | x |
| 15/06/20 a 16/06/20 | ✓ | ✓ | ✓ | CEP | x | x | x | x | x | x | ✓ |

Os bydd angen, dylai’r Prosesau wrth Gefn wedi eu sefydlu erbyn 11/05/20.

**Presenoldeb**

Mae'n **orfodol** bod athrawon dan hyfforddiant yn cwblhau 120 niwrnod o weithgarwch sy'n gysylltiedig ag ysgol. Mae hyn yn cynnwys:

- Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP):
- Pontio;
- Elfennau dewisol;
- Lleoliad Amgen;
- Cyfnewid Cyfnod;
- Cynhadledd Anelu at Ragoriaeth.

Mae **125** o ddiwrnodau wedi eu cynnwys yn nyluniad y rhaglen, felly os bydd athro dan hyfforddiant yn colli mwy na **5** diwrnod – rhaid gwneud iawn am yr amser ar ddiwedd eu rhaglen.

| Nifer o ddiwrnodau'n absennol | Cam Gweithredu |
|---|---|
| 1-5 | Cofnodi absenoldebau – dim camau gweithredu a chwblhau'r rhaglen yn ôl yr arfer. |
| 5 -10 | Cofnodi absenoldeb a gwneud iawn am yr amser ar ddiwedd y rhaglen, fel arfer yn ysgol PAP2. |
| Mwy na 10 | Cofnodi absenoldeb a dechrau Trefniadau wrth Gefn/Proses Achos Pryder |

## Cyflwyniad Graddedig i Addysgu

Bydd cyflwyniad graddedig i addysgu, gan symud o ddim mwy nag amserlen 30% yn ystod y PAP cyntaf i ddim mwy na 75% yn y PAP olaf, yn cynnig amgylchedd dysgu lle bydd arsylwi, hyfforddi a chydaddysgu ac adfyfyrio gydag eraill yn rhan annatod o'r rhaglenni. Bydd dau linyn i'r dull graddedig ar gyfer addysgu annibynnol, dosbarth cyfan:

1. Cyfres o weithgarwch a gynlluniwyd ar gyfer amser pan na fyddant yn addysgu;
2. Profiad a gynlluniwyd o hyfforddi a chydaddysgu y mae athrawon profiadol yn modelu ac yn sgaffaldu taith yr athrawon dan hyfforddiant tuag at annibyniaeth trwyddo.

**Llinyn 1: Gweithgarwch ar gyfer amser pan na fyddant yn addysgu**

Ar sail gwaith cyd-greu, mae PDPA wedi datblygu rhaglen o ddatblygiad sydd wedi ei sgaffaldu ar gyfer yr amser pan na fydd yr athrawon dan hyfforddiant yn addysgu er mwyn cyfeirio'r athro dan hyfforddiant at ddull graddedig o addysgu.

Mae'r rhaglen pan na fyddant yn addysgu yn cynnwys:

- Arsylwi'r addysgu mewn gwahanol leoliadau, grwpiau oedran, pynciau a Meysydd Dysgu a Phrofiad;
- Cyfleoedd i gysgodi athrawon sydd â chyfrifoldebau penodol, h.y. Cydlynydd ADY, cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, arweinwyr bugeiliol a phwnc;

- Cyfleoedd i ymwneud â rhieni, llywodraethwyr a chydweithwyr o asiantaethau eraill;
- Mynediad i gynlluniau datblygiad ysgol a pholisïau sy'n briodol i athro dan hyfforddiant (h.y. diogelu ac amddiffyn plant, dysgu ac addysgu, marcio ac adborth ac ymddygiad);
- Cyfleoedd i gyflawni gwaith ymchwil, darllen ehangach, cynllunio a pharatoi.

**Llinyn 2: Datblygu Annibyniaeth – hyfforddi a chydaddysgu**

Ar gyfer PDPA, mae'r cysyniad o gefnogi'r athro dan hyfforddiant tuag at addysgu annibynnol yn cynnwys hyfforddi a chydaddysgu trwy nifer o ddulliau pedagogaidd, gan gynnwys:

- Un yn addysgu, un yn arsylwi;
- Addysgu tîm;
- Addysgu cyfochrog;

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y technegau hyn o Swyddfa'r Bartneriaeth neu drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

Coteaching and
coaching 290719.pptx

Yn dilyn profiad hyfforddi, mae'n bwysig bod y Mentor Dosbarth/Pwnc yn cefnogi'r athro dan hyfforddiant wrth adfyfyrio ar ysbaid addysgu, yn rhannu'r gwaith o nodi targedau ac yn nodi'r cymorth penodol i'r cyd-destun sydd ei angen.

Gallai'r cymorth hwn gynnwys ymyriad hyfforddi megis gwaith cynllunio wedi ei rannu neu ddefnydd pellach ar ddull cydaddysgu. Yn dilyn yr ymyriad, bydd deialog bellach yn adolygu'r dystiolaeth (nodiadau arsylwi, recordiad fideo, gwaith dysgwr ac ati) a bydd y broses o rannu myfyrdodau a phennu targedau'n gydweithredol yn dechrau eto. Trwy'r cylch iteraidd hwn, sicrheir cynnydd tuag at annibyniaeth mewn modd cyfannol.

Yn unol â Phroses Wrth Gefn y Bartneriaeth, bydd ysgolion yn darparu ymyriadau ar gyfer athrawon dan hyfforddiant fel y bo'n briodol. Nid yw'r Cyflwyniad Graddedig i Addysgu yn dad-wneud y broses hon.

**Amserlin a Awgrymwyd ar gyfer Cyflwyniad Graddedig ar Raglenni TAR**



**Amserlin a Awgrymwyd ar gyfer Cyflwyniad Graddedig ar y Rhaglen BA**




## Datblygiad mentoriaid

Gweler adran 2 o'r llawlyfr (dysgu proffesiynol).

## Cwricwlwm craidd PDPA

Ar draws holl raglenni AGA, mae pob athro dan hyfforddiant yn astudio'r cwricwlwm craidd (gweler isod). Mae'r rhan hon o'r llawlyfr yn trafod pob elfen yn ei thro ac yn rhoi manylion am yr amcanion, y cyd-destun a'r disgwyliadau i ysgolion a'r brifysgol.

<table>
<tr><td>Elfennau dewisol<br>Profiad mewn ysgol lle mae'r athrawon dan hyfforddiant yn dewis dilyn llwybr ymholi mwy arbenigol.</td><td>Pontio<br>Y cysylltiad rhwng theori ac ymarfer – i'w gynnal gan ysgol arweiniol i bob athro dan hyfforddiant mewn rhwydwaith.</td><td>Llwybr Datblygu Iaith Gymraeg<br>Llwybr gorfodol ar gyfer datblygu hyder a chymhwysedd mewn Cymraeg.</td><td>Profiad Amgen<br>Cyfle i brofi addysg ar ei hystyr ehangaf e.e. amgueddfeydd.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Datblygu sgiliau ymchwil<br>Datblygu pedwar anian ymchwil PDPA: bod yn foesegol, bod yn sgeptigol, bod yn ymchwilydd medrus a bod yn rhan o broffesiwn sy'n ymchwilio.</td><td colspan="2">Llwybr Proffesiynol SAC<br>Llwybr gorfodol sy'n arwain at ddyfarnu SAC ac y rhoddwyd tystiolaeth ar ei gyfer trwy fodloni'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth gan ddefnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (CGA).</td></tr>
<tr><td colspan="4">Modylau Gwirfoddol a Addysgir</td></tr>
<tr><td>Astudiaethau Craidd 1</td><td>Astudiaethau Craidd 2</td><td>Astudiaethau Proffesiynol a Phedagogaidd 1</td><td>Astudiaethau Proffesiynol a Phedagogaidd 2</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Dysgwr: pwy ydw i'n ei addysgu? | Dysgwyr, ysgolion a chymunedau: ble'r ydw i'n addysgu? | Arwain y Dysgu: beth, sut a pham rydw i'n addysgu? | Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham rydw i'n addysgu? |

**Modylau Gwirfoddol a Addysgir**

Mae'r adran hon yn crynhoi cynnwys y modylau ac yn rhoi trosolwg o'r asesiad sydd ei angen. Ei ddiben yw:

- Ei ddefnyddio ar y cyd ag amlinelliadau'r flwyddyn i weld beth sy'n cael ei astudio ac ar ba adeg;
- Cynorthwyo'r mathau o asesu y bydd athrawon dan hyfforddiant yn ei gyflawni;
- Sicrhau cysondeb cyfathrebu a dealltwriaeth ar draws y Bartneriaeth.

Gydag amser, bydd hefyd yn helpu rhwydweithiau i nodi a rhannu arfer da ar gyfer gwella canlyniadau myfyrwyr.

## Astudiaethau craidd 1: Y Dysgwr: pwy ydw i'n ei addysgu?

Mae'r modwl hwn yn gosod y plentyn/disgybl yng nghanol y rhaglen. Mae deall datblygiad plant ac ieuenctid, gan gynnwys theorïau dysgu, tystiolaeth sy'n gysylltiedig ag ymarfer a lle iechyd a llesiant, yn hanfodol i ddysgu ac addysgu effeithiol.

Mae hefyd yn herio tybiaethau a barn ynghylch amrywiaeth ddiwylliannol a'r disgwyliadau o ran model datblygiad plant normadol. Archwilir hawliau, lleisiau a chyfraniadau plant a hyrwyddir y syniad o ystyried y plentyn yn unigolyn, yn hytrach na 'grŵp' neu 'ddosbarth'.

Mae'r modwl yn lleoli'r athro'n weithiwr proffesiynol trwy ystyried cyfrifoldebau diogelu, amddiffyn plant, a chyfrifoldebau cytundebol, bugeiliol a chyfreithiol. Yn enwedig, ond nid yn unig, dysgu proffesiynol, addysgeg ac arweinyddiaeth yw'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth sy'n ymwneud â'r modwl hwn.

**Asesu'r modwl hwn:**

| | |
|---|---|
| **ECAD 4007 Lefel 4 (BA1)** | Adroddiad Ysgrifenedig (2000 o eiriau), Dyddiad cyflwyno: 13.12.19<br><br>Dewiswch ddysgwr unigol a nodi sut y bodlonir ei (d)datblygiad cyfannol mewn lleoliad addysgol. Yn sail i hyn, cyfeiriwch at theorïau perthnasol, ymchwil ac enghreifftiau o arfer ardderchog. |
| **ECAD 5007 Lefel 5 (BA2)** | Dyddlyfr adfyfyriol (4000 o eiriau), Dyddiad cyflwyno: 20.4.20<br><br>Dewiswch grŵp bach o ddysgwyr a nodi sut mae ymyriad penodol yn cefnogi eu dysgu a'u datblygiad. Yn sail i hyn, cyfeiriwch at theorïau perthnasol, ymchwil ac enghreifftiau o arfer ardderchog. |
| **ECAD 6007 Lefel 6 (BA3 a TAR)** | Adroddiad Ysgrifenedig (5000 o eiriau), Dyddiad cyflwyno: 29.10.19<br><br>Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau dysgu ac addysgu nesaf gan ganolbwyntio ar astudiaeth achos unigol. |

Astudiaethau Craidd 2: Dysgwyr, ysgolion a chymunedau: ble'r ydw i'n addysgu?

Yn y modwl hwn, mae athrawon dan hyfforddiant yn astudio pwysigrwydd lle a chyd-destun; yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'r athro trawsnewidiol yn edrych y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth tuag at y gymuned lle mae dysgwyr yn arwain eu bywydau ac yn ceisio dylanwadu ar ddatblygiad yn y naill a'r llall. Golyga hyn ddeall natur amrywiol cymuned; effaith tlodi ac amddifadedd cymdeithasol a sut i ddefnyddio data i ddeall y materion hyn ymhellach. Mae'r defnydd ar ddata'n gysylltiedig ag archwilio materion ysgol gyfan a'r meddwl sydd o gwmpas dyluniad ac allbynnau'r cwricwlwm. Ar lefel genedlaethol, mae'r modwl yn ystyried hanes polisi addysg yng Nghymru, yn enwedig ers datganoli, ac addysgu mewn system addysg ddwyieithog. Yn enwedig, ond nid yn unig, dysgu proffesiynol, addysgeg a chydweithredu yw'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth sy'n ymwneud â'r modwl hwn.

**Asesu'r modwl hwn:**

| | |
|---|---|
| **ECAD 4009 Lefel 4 (BA1)** | **Elfen Asesu 1 – 50%**<br>Poster Digidol (1500 o eiriau), Dyddiad Cyflwyno: 13.2.20<br><br>Er enghraifft: Gan ddefnyddio tystiolaeth oddi wrth ysgol eich lleoliad, lluniwch boster digidol o dan y teitl, 'Dechrau wrth fy Nhraed' – dylai'r poster ddangos dealltwriaeth glir o'r berthynas rhwng y dysgwr, yr ysgol a'r gymuned. Dylai gynnwys cyfeiriad at elfennau o'r diwylliant, yr iaith, ffydd a chyd-destun cymdeithasol ac economaidd y gymuned. Dylai darllen, theorïau ac ymchwil academaidd lywio'r gwaith, a dylid ei anelu at gynulleidfa addysgu broffesiynol.<br><br>**Elfen Asesu 2 – 50%**<br>Adroddiad Ysgrifenedig (1500 o eiriau) |
| **ECAD 5009 Lefel 5 (BA2)** | **Elfen Asesu 1 – 100%**<br>Ymateb ysgrifenedig – cynnig ar gyfer prosiect ysgol gymunedol (4000 o eiriau), Dyddiad cyflwyno: 15.5.20<br><br>Er enghraifft: Gan ddefnyddio tystiolaeth a data gan eich ysgol lleoliad, paratowch gynnig ar gyfer prosiect cymuned ysgol sy'n diwallu anghenion y gymuned lle mae'r plant yn byw eu bywydau. Dylid cyfeirio at arfer gorau, darllen, ymchwil a theori academaidd ynghyd ag adfyfyrio a phrofiad personol. Dylai'r cynnig gynnwys fframwaith clir ar gyfer mesur effaith. Y gynulleidfa ar gyfer eich cynnig yw Corff Llywodraethu eich ysgol. |
| **ECAD 6009 Lefel 6 (BA3 a TAR)** | **Elfen Asesu 1 – 50%**<br>Fideo unigol (10 munud), Dyddiad Cyflwyno: 13.3.20 |

| | |
|---|---|
| | Er enghraifft: Gan ddefnyddio tystiolaeth a data gan eich ysgol lleoliad, lluniwch fideo 15 munud unigol sy'n archwilio'n feirniadol y berthynas rhwng y dysgwr, yr ysgol a'r gymuned gan gyfeirio at un o ddibenion y cwricwlwm. Dylai darllen, theorïau ac ymchwil academaidd lywio cynnwys y fideo, a dylid ei anelu at gynulleidfa addysgu broffesiynol.<br>**Elfen Asesu 2 – 50%**<br>Adroddiad Ysgrifenedig (2500 o eiriau), Dyddiad cyflwyno: 13.3.20<br><br>Er enghraifft: Paratowch adroddiad ysgrifenedig sy'n seiliedig ar un pwynt gweithredu sy'n dod o dargedau strategol yr ysgol. Dylai'r adroddiad ddangos sut y gellid mynd i'r afael â'r targed hwn ac y gellid mesur yr effaith oddi mewn i fframwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth. |
| **ECAD 4007 Lefel 4 (TAR)** | **Elfen Asesu 1 – 50%**<br>Fideo unigol (10 munud), Dyddiad Cyflwyno: 13.3.20<br><br>Er enghraifft: Gan ddefnyddio tystiolaeth a data oddi wrth eich ysgol lleoliad, lluniwch fideo 15-minute munud unigol sy'n archwilio'n feirniadol y berthynas rhwng y dysgwr, yr ysgol a'r gymuned gan gyfeirio at un o ddibenion y cwricwlwm. Dylai darllen, theorïau ac ymchwil academaidd lywio cynnwys y fideo, a dylid ei anelu at gynulleidfa addysgu broffesiynol.<br><br>**Elfen Asesu 2 – 50%**<br>Adroddiad Ysgrifenedig (2500 o eiriau), Dyddiad cyflwyno: 13.3.20<br><br>Er enghraifft: Paratowch adroddiad ysgrifenedig sy'n seiliedig ar un pwynt gweithredu sy'n dod o dargedau strategol yr ysgol. Dylai'r adroddiad ddangos sut y gellid mynd i'r afael â'r targed hwn ac y gellid mesur yr effaith oddi mewn i fframwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth. |

**Astudiaethau Proffesiynol a Phedagogaidd 1: Arwain y dysgu – beth, sut a pham rwy'n addysgu?**

Oddi mewn i'r modwl hwn, datblygir yn benodol wybodaeth pwnc sy'n briodol i'r cyfnod a'r wybodaeth cynnwys pedagogaidd sydd ei hangen i addysgu'n effeithiol gynnwys cwricwlaidd pob Maes Dysgu a Phrofiad. Darperir mewnbwn penodol ar gyfer llwybrau cynradd ac uwchradd ar y cyd â phartneriaid mewn ysgol ac mae'r cynnwys modwl yn ymwneud yn benodol ag agweddau ar y *Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth* – yn enwedig addysgeg, cydweithredu ac arweinyddiaeth. Mae'r modwl hwn hefyd yn canolbwyntio ar y wybodaeth cynnwys pedagogaidd sydd ei hangen ar gyfer dysgu ac addysgu effeithiol sy'n seiliedig ar 12 nodwedd addysgu da a nodir gan yr Athro Donaldson yn *Dyfodol Llwyddiannus*.[1]

Yn ogystal, archwilia'r modwl natur gymhleth yr amgylchedd dysgu a'r sgiliau sydd eu hangen i reoli dysgwyr, adnoddau ac oedolion eraill. Caiff egwyddorion cynllunio, addysgu ac asesu ar gyfer dysgu eu sicrhau, a chaiff y cymhwysiad ymarferol ei werthuso. Hwn yw'r modwl lle daw dwy agwedd dysgu deallusol a phrofiadol at

[1] Donaldson, G. 2015 *Dyfodol Llwyddiannus,* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

ei gilydd ar lawr dosbarth a chaiff athrawon dan hyfforddiant gymorth yn eu PAP gan athrawon sy'n ymarfer, cyfoedion a thiwtoriaid yn y brifysgol.

**Asesu'r modwl hwn:**

| | |
|---|---|
| **ECAD 4008 Lefel 4 (BA1)** | **Elfen Asesu 1 – 50%**<br>Aseiniad ysgrifenedig (3000 o eiriau), Dyddiad cyflwyno: 27.3.20<br><br>Er enghraifft: Dewiswch 3 agwedd ar rôl athro proffesiynol (er enghraifft, barn a thybiaethau personol, bod yn hunangyfeiriol neu'n wybodus iawn) a 3 egwyddor bedagogaidd (er enghraifft, cynllunio effeithiol, defnyddio adnoddau, asesu neu siarad athrawon). Trafodwch y dewisiadau hyn mewn perthynas â'ch profiad yn yr ysgol gan ddangos dealltwriaeth sicr, nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. |
| **ECAD 5008 Lefel 5 (BA2)** | **Elfen Asesu 1 – 100%**<br>Aseiniad ysgrifenedig (4000 o eiriau), Dyddiad cyflwyno: 30.10.19<br><br>Er enghraifft: Aseiniad ysgrifenedig sy'n dangos sut y gellir rhyng-gysylltu cyfres o gyfleoedd dysgu i ddangos cynnydd mewn meysydd dysgu a phrofiad penodol. Dylai hyn gynnwys:<br>• Cyfeiriad at ddarllen academaidd a dealltwriaeth o'r dewisiadau pedagogaidd i ysbrydoli'r dysgwr;<br>• Enghreifftiau o arfer creadigol ac arloesol;<br>• Cyfleoedd ar gyfer asesu ar gyfer dysgu a fydd yn llywio ymarfer ac yn sicrhau cynnydd. |
| **ECAD 6008 Lefel 6 (BA3 a TAR)** | **Elfen Asesu 1 – 50%**<br>Portffolio (cyfwerth â 5000 o eiriau), Dyddiad Cyflwyno: 6.1.20<br><br>Enghraifft: Dyddlyfr dysgu digidol adfyfyriol sy'n rhoi tystiolaeth o agwedd ar eich ymarfer sydd wedi ei thrawsnewid yn ystod eich profiad addysgu proffesiynol. Dylid cyfeirio at y llenyddiaeth sy'n bodoli, profiad personol a deialog broffesiynol. |

**Astudiaethau Proffesiynol a Phedagogaidd 2: Ymchwilio i'r dysgu – beth, sut a pham rwy'n addysgu?**

Yn y modwl hwn, archwilir yn benodol bedwar anian yr athro sy'n barod ar gyfer ymchwil:

- Bod yn sgeptigol;
- Bod yn foesegol;
- Bod yn ymchwilydd medrus;
- Bod yn rhan o broffesiwn sy'n ymholi.

Mae athrawon dan hyfforddiant yn ymuno ag athrawon sy'n ymarfer i greu cymunedau ymholi lle nodir problemau go iawn ar lawr dosbarth ac yr ymchwilir iddynt trwy ddull sy'n agos at ymarfer. Archwilir gwahanol fethodolegau, er enghraifft astudio gwersi, astudiaeth achos ac ymchwil weithredol ar raddfa fach. Rhoddir cyfleoedd i rannu allbynnau ac effeithiau ymchwil trwy gynadleddau rheolaidd a gynhelir gan PDPA. Mae'r modwl hwn yn dod â phob agwedd ar y 'Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth' at ei gilydd gyda ffocws ar arloesi.

**Asesu'r modwl hwn**

| | |
|---|---|
| **ECAD 4010 Lefel 4 (BA1)** | **Elfen Asesu 1 – 50%**<br>Aseiniad ysgrifenedig (2000 o eiriau), Dyddiad Cyflwyno: 15.5.20<br><br>Er enghraifft: Cymharwch a chyferbynnu ystod o lenyddiaeth (sy'n ymwneud ag arsylwi) o amrywiaeth o ffynonellau o gwmpas thema (e.e. papurau newydd, dyddlyfrau, blogiau, gwefannau, dogfennau polisi) gan ddangos agwedd feirniadol ac ystyried ei heffaith (h.y. yr ymchwil) ar ymarfer. |
| **ECAD 5010 Lefel 5 (BA2)** | **Elfen Asesu 1 – 100%**<br>Aseiniad ysgrifenedig (cyfwerth â 4000 o eiriau), Dyddiad Cyflwyno: 27.3.20<br><br>Casgliad o dystiolaeth electronig ac ysgrifenedig, sy'n ymwneud â dewis bwnc, gan ddangos bod amrywiaeth o ddulliau ymchwil wedi eu defnyddio a'u gwerthuso a bod y data cysylltiedig a'u heffaith wedi eu dehongli a'u gwerthuso. Rhannir deilliannau'r gwerthusiad hwn mewn lleoliad proffesiynol. |
| **ECAD 6010 Lefel 6 (BA3 a TAR)** | **Elfen Asesu 1 – 100%**<br>Aseiniad ysgrifenedig (5000 o eiriau a 1000 wedi eu rhoi i'r Ffurflen Foeseg), Dyddiad Cyflwyno: 20.2.20<br><br>Dylunio, cynnal a gwerthuso'n feirniadol prosiect ymchwil agos at ymarfer sy'n canolbwyntio ar y canlynol:<br>• Model yr athro trawsnewidiol wrth ddatblygu arfer sy'n cael effaith gadarnhaol ar y dysgwr a/neu'r gymuned ehangach;<br>• Rhannu deilliannau ymchwil mewn fforwm proffesiynol – er enghraifft cyfarfodydd staff, cyfarfodydd llywodraethwyr neu gynhadledd partneriaeth PDPA. |
| **ECAD 7004 Lefel 7 (TAR)** | **Elfen Asesu 1 – 100%**<br>Aseiniad ysgrifenedig (5000 o eiriau a 1000 wedi eu rhoi i'r Ffurflen Foeseg), Dyddiad Cyflwyno: 20.2.20<br><br>Dylunio, cynnal a gwerthuso'n feirniadol brosiect ymchwil sy'n agos at ymarfer ac sy'n canolbwyntio ar y canlynol:<br>• Model yr athro trawsnewidiol wrth ddatblygu ymarfer sy'n gadarnhaol ei effaith ar y dysgwr a/neu'r gymuned ehangach; |

| | |
|---|---|
| | • Rhannu deilliannau ymchwil mewn fforwm proffesiynol – er enghraifft cyfarfodydd staff, cyfarfodydd llywodraethwyr neu gynhadledd partneriaeth PDPA. |

## Dyddiadau Cyflwyno Aseiniadau: Trosolwg

**Lefel 4**

| | |
|---|---|
| Sgiliau Astudio Academaidd | 07/11/19 |
| Pwy ydw i'n ei addysgu? | 13/12/19 |
| Ble'r ydw i'n addysgu? | 13/02/20 |
| Arwain y dysgu | 27/03/20 |
| Ymchwilio i'r dysgu | 15/05/20 |

**Lefel 5**

| | |
|---|---|
| Arwain y dysgu | 30/10/19 |
| Ymchwilio i'r dysgu | 27/03/20 |
| Pwy ydw i'n ei addysgu? | 20/04/20 |
| Ble'r ydw i'n addysgu? | 15/05/20 |

**Lefel 6/7**

| | |
|---|---|
| Pwy ydw i'n ei addysgu? | 29/10/19 |
| Arwain y dysgu | 06/01/20 |
| Ymchwilio i'r dysgu | 20/02/20 |
| Ble'r ydw i'n addysgu? | 13/03/20 |

## BA3 Rhaglen Etifeddol ar gyfer 2019/20

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20, bydd myfyrwyr BA3 yn cwblhau modylau o'r rhaglenni a achredwyd yn flaenorol.

| | | |
|---|---|---|
| ECAD 6001 | Egwyddorion Arfer a Chynnydd | 29.11.19 |
| ECAD 6006 | Yr Iaith ar Daith | 8.11.19 a 8.5.20 |
| ECAD 6012 | Cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd: Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol | 20.12.19 |
| ECAD 6011 | Addysgu a Dysgu Mentrus a Chreadigol | 13.01.20 |
| ECAD 6002 | Athrawon, ysgolion a'r gymuned ehangach a PAP | 9.3.20 |
| ECAD 6003 | Yr Ymarferydd Adfyfyriol | 20.3.20 |

## Pontio ar gyfer 2019/20

Mae pontio'n rhan allweddol o fodel PDPA ar gyfer trawsnewid arfer ac mae'n digwydd ar adegau a ddewisir yn ofalus yn yr amserlen. Treialwyd y model a'i werthuso'n drylwyr iawn ac fe'i cydgrëwyd â chydweithwyr o Ysgolion Arweiniol.

Pontio yw un ffordd o gysylltu theori ac ymarfer. Mae'n cynnwys yr athro dan hyfforddiant, yr athro sy'n ymarfer a Thiwtor y Brifysgol (Cwricwlwm/Proffesiynol) mewn tri chyfnod ymarfer, gyda chyfnod o adfyfyrio ac adolygu yn dilyn pob un.

Dangosir y broses hon yn y diagram isod:




Gellir addasu'r cyfnodau hyn ar gyfer gwahanol gyd-destunau, ond yn fras maent yn cynnwys:

- Cyfarfod â'r syniadau naill ai yn y brifysgol, yr ysgol neu'r gymuned a chynllunio ar gyfer profion;

  *+ Meddwl am ymchwil – beth sydd wedi ei ysgrifennu am y maes hwn?*
- Rhoi prawf ar y syniadau ar lawr dosbarth;

  *+ Meddwl ac adfyfyrio – beth a ddysgwyd am gryfderau a heriau'r cyfnod prawf?*

- Rhannu'r syniadau mewn cyd-destun proffesiynol â chyfoedion a'r gymuned ymarfer dysgu;

  *+ Meddwl a gwerthuso – sut y caiff arfer personol ei drawsnewid er gwell?*

Wrth i athrawon dan hyfforddiant ymwneud â'r broses gylchol hon a chael cymorth wrth bennu targedau personol i'w datblygu, caiff eu harfer dysgu ac addysgu ei drawsnewid ac fe'u hanogir i fynd yn gyfranwyr i'r proffesiwn addysgu sy'n ymholi.

**Beth sy'n sicrhau pontio llwyddiannus?**

O'r gweithgarwch treialu, nodir rhai pwyntiau allweddol sy'n gysylltiedig â phontio llwyddiannus yn y tabl canlynol:

| Cyfarfod | Prawf | Rhannu |
|---|---|---|
| Gellir defnyddio mewnbwn deallusol cryf mewn gwahanol gyd-destunau e.e. rheoli dosbarth neu asesu ar gyfer dysgu;<br><br>Darnau darllen clir y gellir eu trin;<br><br>Ymateb i 'bynciau llosg' sydd wedi eu nodi yn ystod y Profiad Addysgu Proffesiynol. | Cymorth gan Fentor Dosbarth/Pwnc wrth roi prawf/arbrofi gyda syniadau;<br><br>Cyfleoedd i weld athrawon profiadol yn modelu syniad i'w roi ar brawf;<br><br>Trafodaethau a gynorthwyir gan y Mentor Pwnc/Dosbarth wrth adfyfyrio a mireinio'r cyfnod prawf;<br><br>Cysylltu â chynlluniau gweithredu ac ymarfer sy'n bodoli eisoes – angen cefnogi PAP, yn hytrach na bod yn ychwanegiad. | Eglurder disgwyliad – beth sydd i'w ddisgwyl yn y sesiwn rannu?<br><br>Yn agored i feirniadaeth – mwy nag adrodd yn unig ond yn ymwneud â syniadau beirniadol ac adfyfyrio ar y cyd;<br><br>Trafodaeth a gefnogir gan addysgwyr athrawon – llais arbenigol yn rôl y trafodwr;<br><br>Pennu targedau clir ar gyfer arfer personol – blaenborth;<br><br>Adborth i'r Dosbarth/Mentor Pwnc. |

**Y Cyfnod Rhannu – rôl y trafodwr**

Mae 'cyfnod rhannu' y pontio yn hanfodol bwysig wrth weithredu'r dull trawsnewidiol ac wrth newid arfer. I gefnogi'r cyfnod hwn, mae PDPA wedi cyflawni rhywfaint o waith ar rôl y trafodwr, sef yr addysgwr athro fel arfer.

Mae'r sesiynau rhan, mewn gwirionedd, yn gyfleoedd creadigol sy'n canolbwyntio ar adfyfyrio cymdeithasol a gellir disgrifio rôl y trafodwr o dan y tri phennawd canlynol:

- Trefniadol – sut y bydd y sesiwn rannu yn rhedeg?
- Datblygu meddwl ac adfyfyrio beirniadol – sut y cwestiynir y statws quo ac y cyfiawnheir dewisiadau?
- Ailddychmygu ac ailddyfeisio – sut y bydd athrawon dan hyfforddiant yn mynd i'r afael â chynnwys y sesiwn mewn modd sy'n caniatáu iddynt nodi targedau personol ar gyfer eu cyd-destun eu hunain? A'r hyn sydd yr un mor bwysig, yn eu rhwystro rhag diystyru syniadau sy'n llwyr seiliedig ar y cyd-destun e.e. 'Rwy mewn lleoliad cynradd felly nid yw'r cyflwyniad uwchradd yn berthnasol i mi'.

Ymhelaethir ymhellach ar yr agweddau hyn yn y tabl isod:

| **Agweddau trefniadol** | **Datblygu meddwl ac adfyfyrio beirniadol** | **Ailddychmygu ac ailddyfeisio ymarfer personol** |
|---|---|---|
| Yn trefnu'r ystafell ac yn gwneud trefniadau ymarferol. | Yn gwrando'n ofalus gydag osgo sy'n ymholi (cwestiynu) at yr hyn a rannir. | Yn adeiladu ar 'ailddychmygu ac ailddyfeisio amser' i'r sesiwn, lle mae myfyrwyr yn rhagweithiol wrth greu dull a 'ailddychmygwyd' at eu lleoliad personol. |

| Agweddau trefniadol | Datblygu meddwl ac adfyfyrio beirniadol | Ailddychmygu ac ailddyfeisio ymarfer personol |
|---|---|---|
| Yn sicrhau bod ffocws/dull yr adfyfyrio a rannir yn hysbys i'r cyfranogwyr ymlaen llaw – beth a ddisgwylir?<br><br>Yn paratoi trefn ar gyfer yr adborth ac yn ei rhannu â'r cyfranogwyr ymlaen llaw.<br><br>Yn sicrhau y dilynir y drefn gydol y sesiwn.<br><br>Yn cymryd yn gofrestr ac yn mynd ar ôl absenoldebau gydag Uwch Fentor mewn ysgol berthnasol.<br><br>Yn cadw'r 'Rhannu' i amser a ddyrannwyd. Caiff yr holl fyfyrwyr yr un cyfle. Yn defnyddio arwydd 'angen cloi'.<br><br>Yn sicrhau y dyrannir swm priodol o amser ar gyfer cwestiynau ynghylch y cynnwys a rannwyd.<br><br>Trefnu bod deunydd ar gael i athrawon dan hyfforddiant ei ddefnyddio.<br><br>Diolch i bawb a gymerodd ran. | Yn defnyddio dulliau priodol ddal yn fyw'r cryfderau a'r gwendidau cadarnhaol/negyddol.<br><br>Yn arwyddo'r cysylltiadau rhwng y cynnwys a rannir a'r llenyddiaeth berthnasol, ymchwil. theori ac addysgeg bresennol.<br><br>Yn creu llif naturiol o'r cyflwyniad i'r drafodaeth a dyrannu amser i feddwl ynghylch 'gwella' a rhoi blaenborth oddi wrth y gynulleidfa i'r rhannwr.<br><br>Yn defnyddio dulliau sy'n symbylu trafodaeth gan y gynulleidfa.<br><br>Yn symleiddio ac yn tynnu sylw / yn recordio yng ngolwg pawb y 'negeseuon allweddol' sy'n dod o'r cynnwys cyffredin tynnu sylw at yr hanes.<br><br>Yn cynnig 'golwg feirniadol' trwy holi cwestiynau agored sy'n canolbwyntio ar ddewisiadau pedagogaidd.<br><br>Os yw cwestiynau/trafodaeth y gynulleidfa yn mynd ar ôl ysgyfarnog am gyfnod hir, yn ailffocysu'r drafodaeth. | Llywio myfyrwyr o ran meddwl yn greadigol (herio tybiaethau, meddwl dargyfeiriol, cyfuno, gweld cysylltiadau o bell) i ailddychmygu ar gyfer ein cyd-destun ein hunain.<br><br>Yn dathlu 'unigrwydd effeithiol' ac yn archwilio'r 'anarferol diddorol'.<br><br>Yn dychwelyd i negeseuon 'Darlun mawr' gan adael gyda'r rhain yn hytrach na mynd 'yn boddi' o dan fanylion negyddol.<br><br>Yn cynnwys amser ar gyfer adborth am gymhwysiad pedagogaidd 'a ailddyfeisiwyd' yn ystod y sesiwn. Sut bydd hyn yn edrych yn eich lleoliad chi?<br><br>Yn sicrhau bod pob athro dan hyfforddiant wedi mynegi targed personol yn 'rhywbeth i fynd ag e' o'r sesiwn. |

**Diwrnodau Cyfarfod a Rhannu**

Fel y bo'n briodol, bydd addysgwyr athrawon yn y brifysgol (naill ai Cwricwlwm neu Broffesiynol) yn cefnogi'r diwrnodau cyfarfod a rhannu.

Bydd Tiwtoriaid y Brifysgol (Proffesiynol) yn ychwanegu haen o sicrwydd ansawdd trwy fynd i sesiynau pontio ar draws eu Ysgolion Arweiniol, ac yn darparu athrawon cyflenwi os bydd gan Diwtoriaid y Brifysgol (Cwricwlwm) ymrwymiadau addysgu. Gweler y rhestr isod:

| Ysgol Arweiniol | Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) | Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm) |
|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Fitzalan | Hilary Chivers<br>h.chivers@uwtsd.ac.uk | Iwan Ellis-Williams<br>i.ellis-williams@uwtsd.ac.uk |

| **Ysgol Arweiniol** | **Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol)** | **Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm)** |
|---|---|---|
| Ysgol Olchfa | Hilary Chivers<br>h.chivers@uwtsd.ac.uk | Ishmael Lewis<br>Ishmael.lewis@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Coedcae | Linda Davies<br>L.davies@uwtsd.ac.uk | Alison Evans<br>Alison.evans2@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Llanhari | Linda Davies<br>L.davies@uwtsd.ac.uk | Catherine Morgan<br>c.morgan@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las | Linda Davies<br>L.davies@uwtsd.ac.uk | Nanna Ryder<br>n.ryder@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Y Preseli | Linda Davies<br>L.davies@uwtsd.ac.uk | Sioned Hughes<br>s.v.hughes@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Gynradd Cadle | Natalie Griffiths<br>Natalie.griffiths@uwtsd.ac.uk | Libby Chancer<br>Libby.chancer@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Gyfun y Bont-faen | Natalie Griffiths<br>Natalie.griffiths@uwtsd.ac.uk | Angella Cooze<br>Angella.cooze@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Gyfun Pontarddulais | Natalie Griffiths<br>Natalie.griffiths@uwtsd.ac.uk | Carys Jennings<br>c.jennings@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Gyfun Treorci | Natalie Griffiths<br>Natalie.griffiths@uwtsd.ac.uk | Rachel Wallis<br>Rachel.wallis@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Gynradd Llangatwg | Ceri Lewis<br>C.J.Lewis@uwtsd.ac.uk | Shan Samuel-Thomas<br>Shan.samuel-thomas@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Gynradd Maes-yr-haul | Ceri Lewis<br>C.J.Lewis@uwtsd.ac.uk | Rachel Bendall & Steve Hadley<br>Rachel.bendall@uwtsd.ac.uk<br>Stephen.hadley@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Pentrehafod | Ceri Lewis<br>C.J.Lewis@uwtsd.ac.uk | Peter Lloyd<br>Peter.lloyd@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Sant Thomas | Ceri Lewis<br>C.J.Lewis@uwtsd.ac.uk | Gail Parker<br>Gail.parker@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf | Diane Thomas<br>D.B.Thomas@uwtsd.ac.uk | Jayne Morgan<br>Jayne.morgan@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Gynradd Parkland | Diane Thomas<br>D.B.Thomas@uwtsd.ac.uk | Sian Brooks<br>s.brooks@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Gymunedol Doc Penfro | Diane Thomas<br>D.B.Thomas@uwtsd.ac.uk | Tom Cox<br>t.cox@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Cwm Brombil | Diane Thomas<br>D.B.Thomas@uwtsd.ac.uk | Nerys Defis & Aled Williams<br>Nerys.defis@uwtsd.ac.uk<br>Aled.p.williams@uwtsd.ac.uk |



## Trwy lygad yr ysgol: Pontio ar gyfer pob cyfnod i’r athro dan hyfforddiant

Ysgol Pentrehafod ac Ysgol y Preseli

https://youtu.be/-Au-moLdWJs

https://youtu.be/9K9IQGwryb0

**Pontio yn BA1**

Yn BA1, cynhelir y cyfnodau *Cyfarfod a Rhannu* yn y brifysgol, ac maent yn gysylltiedig â modylau penodol. Cynhelir y cyfnod *Prawf* mewn Ysgolion Partner, a bydd ar ffurf arsylwi ar lawr dosbarth a gweithgareddau sy’n ei gwneud hi’n bosibl rhoi prawf ar syniadau a thybiaethau mewn cyd-destun penodol.

Dylai rhwydweithiau ystyried gosod yr athrawon dan hyfforddiant hyn yn BA1 yn yr ysgol (a’r dosbarth) lle bydd eu lleoliad ar gyfer Profiad Addysgu Proffesiynol 1.

*Bydd manylion am ffocws gweithgareddau pob wythnos yn dilyn ym mis Medi gan y timau modwl perthnasol.*

**Arweiniad am Bontio BA1**

| **Pontio BA1** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad** | **Cyfarfod** | **Prawf** | **Rhannu** | **Nodiadau** |
| 11.11.19 | Y Brifysgol ↓ | Ysgol bartner | Y Brifysgol | |
| 18.11.19 | | | | |
| 25.11.19 | | | | |
| 2.12.19 | | | | |
| 20.1.20 | | | | |
| 27.1.20 | | | | |
| 3.2.20 | | | | |

**Pontio mewn BA2, BA3 a TAR**

Ar gyfer BA2, BA2, BA3 a TAR (cynradd ac uwchradd), y patrwm arferol yw:

- ❖ Cyfarfod – yn digwydd yn yr Ysgol Arweiniol;

- ❖ Prawf – yn digwydd mewn Ysgol Bartner (lleoliad);
- ❖ Rhannu – athrawon dan hyfforddiant yn dychwelyd i'r Ysgol Arweiniol.

**Arweiniad ar gyfer Pont 1**

| **Pont 1 ( patrwm arferol) – arsylwi grŵp o ddysgwyr** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Carfan** | **Cyfarfod** | **Prawf** | **Rhannu** | **Nodiadau** |
| TAR (llwybrau cynradd ac uwchradd) yn unig | 25.9.19<br>Ysgol Arweiniol<br>Arsylwi effeithiol | 26.9.19 a 2.10.19<br>Ysgol Bartner (lleoliad) | 3.10.19<br>Ysgol Arweiniol<br>Gwneud synnwyr a rhannu<br>Pennu targedau | Mae Pont 1 yn gysylltiedig â'r aseiniad ar gyfer *Y Dysgwr: pwy ydw i'n ei addysgu? (ECAD 6007)* |

**Cyfarfod: Ysgol Arweiniol**

*Bydd darlleniadau ac awgrymiadau ar gyfer pynciau penodol yn dilyn o'r timau modwl ym mis Medi*

**Prawf: Ysgol Bartner (lleoliad)**

26/9 – Ysgol Lleoliad: Diwrnod arsylwi dosbarth 1

2/10 – Ysgol Lleoliad: Diwrnod arsylwi dosbarth 2

Ar gyfer y cyfnod prawf, dylid dyrannu athrawon gan hyfforddiant i'r un dosbarth ar gyfer y naill ddiwrnod arsylwi a'r llall yn y cyfnod prawf:

- ❖ Yn y lleoliad cynradd, dylai hwn fod yn ddosbarth Blwyddyn 1 neu 2;
- ❖ Yn y lleoliad cynradd, dylai hwn fod yn ddosbarth Blwyddyn 8 neu 9.

**Rhannu: Ysgol Arweiniol**

*Gwneud synnwyr, rhannu a phennu targedau*

Mae'r rhannu'n digwydd mewn Ysgol Arweiniol ar ffurf seminar a gadeirir ar y cyd gan yr Arweinydd Rhwydwaith a Thiwtor y Brifysgol (Proffesiynol/Cwricwlwm) a fydd yn gweithio yn rôl y trafodwr.

Bydd athrawon o dan hyfforddiant yn cyflwyno eu myfyrdodau a'u canfyddiadau i'r gymuned broffesiynol (cymheiriaid, addysgwyr athrawon ac athrawon sy'n ymarfer fel y bo'n briodol), ac fe'u hanogir i bwyso a mesur eu barn a'u syniadau mewn lleoliad cymdeithasol. Archwilir y pethau sy'n debyg a'r gwahaniaethau, ynghyd â chymariaethau rhwng y mewnbwn yn y cyfnod cyfarfod, a'r profiadau yn y cyfnod prawf.

Yn sesiwn lawn y seminar, mae amser wedi ei ddyrannu ar gyfer adfyfyrio, ailddelweddu ac ailddyfeisio, sy'n caniatáu i athrawon dan hyfforddiant drawsnewid eu hymarfer yng ngoleuni'r profiad rhannu. Mae'n hanfodol bod gan bob athro dan hyfforddiant gyfle i fynegi targedau personol a rhannu'r rhain â'r grŵp.

Mae'n annhebygol y bydd y seminar yn mynd â'r diwrnod cyfan. Dylid rhoi unrhyw amser dros ben i athrawon dan hyfforddiant ychwanegu tystiolaeth o Bontio 1 at eu Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) ac ystyried eu profiadau yng ngoleuni gofynion aseiniadau. Ar gyfer rhwydweithiau mwy, efallai y bydd o fudd rhedeg dau grŵp seminar gyda niferoedd llai o athrawon dan hyfforddiant.

## Arweiniad ar gyfer Pont 2

| **Pont 2 ( patrwm anarferol) – creu amgylchedd dysgu effeithiol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Carfan** | **Cyfarfod** | **Prawf** | **Rhannu** | **Nodiadau** |
| TAR (llwybrau cynradd ac uwchradd) yn unig | Lleoliad Prifysgol<br>Arsylwi dysgu effeithiol | 8.10.19<br>Ysgol Bartner (lleoliad) | 9.10.19<br>Ysgol Arweiniol<br>Gwneud synnwyr a rhannu<br>Pennu targedau | Mae Pont 2 yn gysylltiedig â'r aseiniad ar gyfer *Arwain y Dysgu*<br>*(ECAD 6008)* |

**Cyfarfod: Lleoliad Prifysgol**

*Bydd darlleniadau ac awgrymiadau ar gyfer pynciau penodol yn dilyn o'r timau modwl ym mis Medi*

**Prawf: Ysgol Bartner (lleoliad)**

Bydd athrawon dan hyfforddiant yn mynd i'w hysgol lleoliad ac yn cysgodi aelod o'r staff addysgu gan arsylwi sut mae athrawon yn creu amgylchedd dysgu effeithiol ac yn rhoi prawf ar unrhyw syniadau a ddatblygwyd o'r cynnwys prifysgol.

**Rhannu: Ysgol Arweiniol**

*Gwneud synnwyr, rhannu a phennu targedau*

Mae rhannu syniadau yn digwydd mewn Ysgol Arweiniol ar ffurf seminar a gadeirir ar y cyd gan yr Arweinydd Rhwydwaith a'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol/Cwricwlwm), a fydd yn gweithredu yn rôl y trafodwr.

Bydd athrawon o dan hyfforddiant yn cyflwyno eu myfyrdodau a'u canfyddiadau i'r gymuned broffesiynol (cymheiriaid, addysgwyr athrawon ac athrawon sy'n ymarfer fel y bo'n briodol), ac fe'u hanogir i bwyso a mesur eu barn a'u syniadau mewn lleoliad cymdeithasol. Archwilir y pethau tebyg a'r gwahaniaethau, ynghyd â chymariaethau rhwng y mewnbwn yn y cyfnod cyfarfod, a'r profiadau yn y cyfnod prawf.

Yn sesiwn lawn y seminar, dyrannir amser ar gyfer adfyfyrio, ailddelweddu ac ailddyfeisio, sy'n galluogi'r athrawon o dan hyfforddiant i drawsnewid eu harfer yng ngoleuni'r profiad rhannu. Mae'n hanfodol bod gan bob athro dan hyfforddiant gyfle i fynegi targedau personol a rhannu'r rhain â'r grŵp.

Mae'n annhebygol y bydd y seminar yn mynd â'r diwrnod cyfan. Dylid rhoi unrhyw amser dros ben i'r athrawon dan hyfforddiant allu ychwanegu tystiolaeth o Bont 2 at eu Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) ac

ystyried eu profiadau yng ngoleuni gofynion aseiniadau. Ar gyfer rhwydweithiau mwy o faint, efallai y bydd o fudd cynnal dau grŵp seminar gyda llai o athrawon dan hyfforddiant.

**Arweiniad ar gyfer Pont 3**

| **Pont 3 ( patrwm arferol) – y berthynas rhwng yr ysgol, dysgwyr a'r gymuned** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Carfan** | **Cyfarfod** | **Prawf** | **Rhannu** | **Nodiadau** |
| TAR (llwybrau cynradd ac uwchradd)<br><br>BA2 | 13.11.19<br>Ysgol Arweiniol | 14.11.19 – 26.11.18<br>Ysgol Bartner (lleoliad) | 27.11.19<br>Ysgol Arweiniol<br>Gwneud synnwyr a rhannu<br>Pennu targedau | Mae Pont 3 yn gysylltiedig ag aseiniad **TAR** ar gyfer *Ble rydw i'n addysgu?*<br>*(ECAD 7003)* |

**Cyfarfod: Ysgol Arweiniol**

*Bydd darlleniadau ac awgrymiadau ar gyfer pynciau penodol yn dilyn o'r timau modwl ym mis Medi*

**Prawf: Ysgol Bartner (lleoliad)**

?????

**Rhannu: Ysgol Arweiniol**

*Gwneud synnwyr, rhannu a phennu targedau*

Mae'r rhannu yn digwydd mewn Ysgol Arweiniol ar ffurf seminar a gadeirir ar y cyd gan yr Arweinydd Rhwydwaith a'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol/Cwricwlwm), a fydd yn gweithredu yn rôl y trafodwr.

Bydd athrawon o dan hyfforddiant yn cyflwyno eu myfyrdodau a'u canfyddiadau i'r gymuned broffesiynol (cymheiriaid, addysgwyr athrawon ac athrawon sy'n ymarfer fel y bo'n briodol), ac fe'u hanogir i bwyso a mesur eu barn a'u syniadau mewn lleoliad cymdeithasol. Archwilir y pethau tebyg a'r gwahaniaethau, ynghyd â chymariaethau rhwng y mewnbwn yn y cyfnod cyfarfod, a'r profiadau yn y cyfnod prawf.

Yn sesiwn lawn y seminar, dyrannir amser ar gyfer adfyfyrio, ailddelweddu ac ailddyfeisio, sy'n galluogi'r athrawon o dan hyfforddiant i drawsnewid eu hymarfer yng ngoleuni'r profiad rhannu. Mae'n hanfodol bod gan bob athro dan hyfforddiant gyfle i fynegi targedau personol a rhannu'r rhain â'r grŵp.

Mae'n annhebygol y bydd y seminar yn mynd â'r diwrnod cyfan. Dylid rhoi unrhyw amser dros ben i'r athrawon dan hyfforddiant allu ychwanegu tystiolaeth o Bont 3 at eu Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) ac ystyried eu profiadau yng ngoleuni gofynion aseiniadau. Ar gyfer rhwydweithiau mwy o faint, efallai y bydd o fudd cynnal dau grŵp seminar gyda llai o athrawon dan hyfforddiant.

**Arweiniad ar gyfer Pont 4**

| Pont 4 ( patrwm arferol) – trosiannol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Carfan** | **Cyfarfod** | **Prawf** | **Rhannu** | **Nodiadau** |
| TAR (llwybrau cynradd ac uwchradd)<br><br>BA2 | 8.1.20<br>Ysgol Arweiniol | 9.1.20 - 4.2.20<br>Ysgol Bartner (lleoliad) | 5.1.20<br>Ysgol Arweiniol<br>Gwneud synnwyr a rhannu<br>Pennu targedau | Gweler nodyn D.S. isod) |

*(D.S.: Ar gyfer athrawon dan hyfforddiant Cynradd a BA2, gallai'r bont hon gefnogi eu symudiad rhwng cyfnodau, ac ystyried pontio rhwng y Cyfnod Sylfaen a CA2. Ar gyfer TAR Uwchradd, dylai'r bont hon ganolbwyntio ar y trosglwyddo i CA4, a chefnogi rhagor o addysgu yn y Cyfnod Allweddol hwn. Efallai yr hoffai rhwydweithiau cymysg gydweithio i gynorthwyo ei gilydd i ddarparu'r cyfnod Cyfarfod er mwyn sicrhau mewnbwn perthnasol)*

**Cyfarfod: Ysgol Arweiniol**

*Bydd darlleniadau ac awgrymiadau ar gyfer pynciau penodol yn dilyn o'r timau modwl ym mis Medi*

Sylwer bod y ffocws rhwng y Cyfnod Sylfaen a CA2 (ar gyfer Cynradd), a rhwng CA3 a CA4 ar gyfer Uwchradd. Efallai yr hoffai ysgolion gyfeirio at y pontio rhwng y cynradd a'r uwchradd yn rhan o'u mewnbwn, ond nid hwn yw ffocws y cyfnod prawf.

**Prawf: Ysgol Bartner (lleoliad)**

Rhoi ar waith syniadau o'r diwrnod *Cyfarfod*.

Dylai athrawon cynradd dan hyfforddiant archwilio sut mae eu hysgol lleoliad yn llwyddo i drosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen i CA2, gan gynnwys gwahaniaethau o ran mathau o addysgeg, cynnwys cwricwlwm a disgwyliadau. Dylai athrawon uwchradd dan hyfforddiant adfyfyrio ar addysgeg a chynnwys cwricwlwm CA4 o'u cymharu â CA3.

**Rhannu: Ysgol Arweiniol**

*Gwneud synnwyr, rhannu a phennu targedau*

Mae'r rhannu yn digwydd mewn Ysgol Arweiniol ar ffurf seminar a gadeirir ar y cyd gan yr Arweinydd Rhwydwaith a'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol/Cwricwlwm), a fydd yn gweithredu yn rôl y trafodwr.

Bydd athrawon o dan hyfforddiant yn cyflwyno eu myfyrdodau a'u canfyddiadau i'r gymuned broffesiynol (cymheiriaid, addysgwyr athrawon ac athrawon sy'n ymarfer fel y bo'n briodol), ac fe'u hanogir i bwyso a

mesur eu barn a'u syniadau mewn lleoliad cymdeithasol. Archwilir y pethau tebyg a'r gwahaniaethau, ynghyd â chymariaethau rhwng y mewnbwn yn y cyfnod cyfarfod, a'r profiadau yn y cyfnod prawf.

Yn sesiwn lawn y seminar, dyrannir amser ar gyfer adfyfyrio, ailddelweddu ac ailddyfeisio, sy'n galluogi'r athrawon o dan hyfforddiant i drawsnewid eu hymarfer yng ngoleuni'r profiad rhannu. Mae'n hanfodol bod gan bob athro dan hyfforddiant gyfle i fynegi targedau personol a rhannu'r rhain â'r grŵp.

Mae'n annhebygol y bydd y seminar yn mynd â'r diwrnod cyfan. Dylid rhoi unrhyw amser dros ben i'r athrawon dan hyfforddiant allu ychwanegu tystiolaeth o Bont 4 at eu Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) ac ystyried eu profiadau yng ngoleuni gofynion aseiniadau. Ar gyfer rhwydweithiau mwy o faint, efallai y bydd o fudd cynnal dau grŵp seminar gyda llai o athrawon dan hyfforddiant.

**<u>Arweiniad ar gyfer Pont 5</u>**

| **Pont 5 ( patrwm arferol) – gan ddefnyddio asesiad i gynllunio ar gyfer cynnydd disgyblion** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Carfan** | **Cyfarfod** | **Prawf** | **Rhannu** | **Nodiadau** |
| TAR (llwybrau cynradd ac uwchradd) yn unig | 22.4.20<br>Ysgol Arweiniol | 23.4.20 – 19.5.20<br>Ysgol Bartner (lleoliad) | 20.5.20<br>Ysgol Arweiniol<br>Gwneud synnwyr a rhannu<br>Pennu targedau | |

**<u>Cyfarfod: Ysgol Arweiniol</u>**

*Bydd darlleniadau ac awgrymiadau ar gyfer pynciau penodol yn dilyn o'r timau modwl ym mis Medi*

**<u>Prawf: Ysgol Bartner (lleoliad)</u>**

Rhoi ar waith syniadau o'r diwrnod *Cyfarfod*. Yng nghyd-destun ysgol PAP2, ymchwilio i strategaethau ffurfiannol sy'n dyfnhau arfer ac yn sicrhau cynnydd disgyblion.

**<u>Rhannu: Ysgol Arweiniol</u>**

*Gwneud synnwyr, rhannu a phennu targedau*

Mae'r rhannu yn digwydd mewn Ysgol Arweiniol ar ffurf seminar a gadeirir ar y cyd gan yr Arweinydd Rhwydwaith a'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol/Cwricwlwm), a fydd yn gweithredu yn rôl y trafodwr.

Bydd athrawon o dan hyfforddiant yn cyflwyno eu myfyrdodau a'u canfyddiadau i'r gymuned broffesiynol (cymheiriaid, addysgwyr athrawon ac athrawon sy'n ymarfer fel y bo'n briodol), ac fe'u hanogir i bwyso a

mesur eu barn a'u syniadau mewn lleoliad cymdeithasol. Archwilir y pethau tebyg a'r gwahaniaethau, ynghyd â chymariaethau rhwng y mewnbwn yn y cyfnod cyfarfod, a'r profiadau yn y cyfnod prawf.

Yn sesiwn lawn y seminar, dyrannir amser ar gyfer adfyfyrio, ailddelweddu ac ailddyfeisio, sy'n galluogi'r athrawon o dan hyfforddiant i drawsnewid eu hymarfer yng ngoleuni'r profiad rhannu. Mae'n hanfodol bod gan bob athro dan hyfforddiant gyfle i fynegi targedau personol a rhannu'r rhain â'r grŵp.

Mae'n annhebygol y bydd y seminar yn mynd â'r diwrnod cyfan. Dylid rhoi unrhyw amser dros ben i'r athrawon dan hyfforddiant allu ychwanegu tystiolaeth o Bont 5 at eu Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) ac ystyried eu profiadau yng ngoleuni gofynion aseiniadau. Ar gyfer rhwydweithiau mwy o faint, efallai y bydd o fudd cynnal dau grŵp seminar gyda llai o athrawon dan hyfforddiant.

## Elfennau Dewisol ar gyfer 2019/20



### School's-eye view: Electives

Fitzalan High School

https://youtu.be/GZezOfEYyYI

| Carfan | Dyddiadau Elfennau Dewisol |
|---|---|
| TAR (cynradd ac uwchradd) | 2.3.20 – 6.3.20<br>(cyfanswm o 5 diwrnod) |
| BA3*<br>Elfen Ddewisol Etifeddol gweler isod | 10.2.20 -14.2.20<br>24.2.20 -25.2.20<br>(cyfanswm o 7 diwrnod) |
| BA1 a BA2 | Dim profiad dewisol |

**Rhesymwaith**

Mae profiad yr elfennau dewisol yn gyfle datblygiad proffesiynol na chaiff ei asesu i athrawon dan hyfforddiant. Fe'i cynhelir mewn lleoliad ysgol ac mae'n canolbwyntio ar sicrhau gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o faes sy'n gysylltiedig â diddordeb personol.

Bydd yr athrawon dan hyfforddiant yn dilyn pwnc penodol neu thema o ddiddordeb gan gyflawni gweithgareddau megis:

- Arsylwi;
- Cynnal cyfweliadau;
- Darllen ymchwil;
- Cymryd rhan mewn deialog broffesiynol.

Yn ystod yr ymweliad, dyrannir amser ar gyfer gwahanol fathau o weithgarwch er mwyn sicrhau bod gan bob unigolyn ystod eang o brofiadau mewn pwnc/thema dan sylw. Y bwriad yw bod myfyrwyr yn cael profiad y gellir ei gymharu, gan gyfoethogi eu dealltwriaeth a rhoi mantais arbennig iddynt wrth geisio am swyddi mewn ysgolion.

Ar ôl gwneud yr elfennau dewisol, mae'r athrawon dan hyfforddiant yn dosbarthu eu canfyddiadau i'r gymuned broffesiynol yn y lleoliad dewisol, e.e. athrawon, llywodraethwyr, neu'r tîm arweinyddiaeth er mwyn dangos eu dealltwriaeth a rhannu â'r ysgol elfennau cadarnhaol o'r wybodaeth newydd a enillwyd. Gellir gwneud hyn trwy ddefnyddio model arfer da Estyn, sydd ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol: https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/improving-wellbeing-and-standards-attainment.

**Trefniadau**

Fel arfer, cynhelir yr elfennau dewisol oddi mewn i'r rhwydwaith lle gosodwyd yr athro dan hyfforddiant drwy gydol eu rhaglen AGA. Gwneir trefniadau oddi mewn i'r rhwydweithiau i sicrhau bod diddordebau athrawon dan hyfforddiant yn cyfateb i'r lleoliadau sydd ar gael.

Bydd pob profiad yn amrywio ychydig yn ôl y lleoliad, fodd bynnag, y disgwyl yw y bydd pob athro dan hyfforddiant yn treulio cyfnod sylweddol o amser yn yr ysgol ac y bydd rôl 'ymgynghorydd proffesiynol' wedi ei dyrannu i aelodau staff yr ysgol ar gyfer ymweliad yr elfennau dewisol ar ei hyd. < Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd am ymgysylltu proffesiynol trwy ddeialog a rhannu syniadau a myfyrdodau.

**Disgwyliadau**

Rôl yr athro dan hyfforddiant:

- Llunio rhesymwaith ar gyfer dewis elfen ddewisol;
- Ymgysylltu'n llawn â phrofiad yr elfennau dewisol er mwyn gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth;
- Cynnal ymchwil bersonol sy'n gysylltiedig â'r maes/pwnc;
- Rhannu'r profiad ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd mewn modd proffesiynol.

Rôl yr ysgol:

- Dyrannu aelod o'r staff yn 'ymgynghorydd proffesiynol' i'r tîm athrawon dan hyfforddiant;
- Sicrhau y caiff y myfyrwyr gymorth gan aelodau staff allweddol gydol y profiad;
- Darparu ystod eang o gyfleoedd i fyfyrwyr gasglu gwybodaeth;
- Ymroi i ddeialog adfyfyriol â'r myfyrwyr ar wahanol adegau;

- Croesawu'r arsylwadau a'r sylwadau y mae myfyrwyr yn eu gwneud.

Rôl y Brifysgol:

- Sicrhau y caiff athrawon dan hyfforddiant eu paratoi ar gyfer y cyfleoedd dewisol;
- Cefnogi athrawon dan hyfforddiant a'r ysgol mewn triawd o ddeialog adfyfyriol;
- Tiwtor y Brifysgol (Proffesiynol) i gefnogi rhwydweithiau trwy drefnu'r arlwy ddewisol a'r modd y trefnir y profiad.

**Rhesymwaith myfyrwyr ar gyfer dewis elfen ddewisol**

Y rhain yw'r cwestiynau y mae gofyn i athrawon dan hyfforddiant eu trafod â'r addysgwr athro yn yr ysgol a'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) sy'n arwain y profiad dewisol. Mae angen i athrawon dan hyfforddiant ddangos mesur uchel o ymgysylltu o'r cychwyn a thystiolaeth o gynnal ymchwil hunangyfeiriol yn eu dewis faes profiad cyn y profiad. Y cwestiynau y cytunir arnynt yw'r canlynol:

**Question 1** What are your reasons for this choice of elective?

- Does it relate to an aspect of previous study?
- Is there evidence of engagement with the area in other experiences e.g. community volunteering, clubs and societies?
- Does it relate to future plans e.g. choice of phase or type of school?

**Question 2** What key reading have you already undertaken?

- Are you chosing from an informed position to maximise the experience?
- Can you talk about some of your key reading to justify your choice?

**Question 3** What do you intend learning from the elective experience?

- What lines of enquiry have been raised from your reading?
- Have you formultae some research questions?
- What methodologies might you use?

**Elfennau Dewisol ar gyfer BA3**

Er bod y profiad dewisol ar gyfer BA3 yn gysylltiedig ag aseiniad ar gyfer 2019/20, does dim rheswm pam na ellir addasu agweddau ar y model hwn ar gyfer elfennau dewisol TAR.

**Thema gyffredinol ar gyfer BA3**

Mae'r profiad dewisol ar gyfer BA3 yn gysylltiedig â modwl ymchwil o'r enw *Yr Ymarferwr Adfyfyriol - ECAD6003/C*. Bydd moeseg ymchwil, dulliau arsylwi, methodolegau a gwybodaeth/data wedi bod yn rhan o'r modwl cyn, yn ystod ac ar ôl cynnal yr elfennau dewisol.

Bydd pob elfen ddewisol yn amrywio rywfaint yn ôl y lleoliad; fodd bynnag, y disgwyliad yw y bydd pob unigolyn yn treulio saith niwrnod yn yr ysgol ac y caiff rôl Ymgynghorydd Proffesiynol ei dyrannu i aelod o'r staff ar gyfer ymweliad yr elfennau dewisol ar ei hyd. Bydd hyn rhoi amser ar gyfer ymgysylltu trwy ddeialog broffesiynol a rhannu syniadau drwy adfyfyrio.

*D.S.: Dylai'r Ymgynghorydd Proffesiynol fabwysiadu rôl trafodwr wrth gynnal cyfnod rhannu'r elfennau dewisol.*

**Amserlen ar gyfer Elfennau Dewisol BA3**

<table>
<tr><th>Lleoliad a Dyddiad</th><th>Gweithgarwch</th></tr>
<tr><td>Diwrnod 1 – dydd Llun<br>10.2.20<br><br>Ysgol Ddewisol</td><td>Diwrnod Cynefino – dod i adnabod yr ysgol a'i chyd-destun lleol Er enghraifft:<br>- Disgwyliadau ynghylch ymddygiad proffesiynol mewn ysgol;<br>- Dyrannu ystafell ganolog/lle gwaith;<br>- Taith o gwmpas yr ysgol a chyfarfod â phobl allweddol.<br><br>Cyfarfod – caiff athrawon gyfle i rannu eu rhesymwaith a chanolbwyntio gyda'r Ymgynghorydd Proffesiynol a'i gilydd yn fodd o ymarfer y prosiect ymchwil.<br><br>Pwyntiau allweddol – rhaid i athrawon dan hyfforddiant fynd ati i gasglu gwybodaeth ar y Diwrnod Cynefino gan y bydd hon yn rhan o'u hadroddiad ffurfiol.</td></tr>
<tr><td>Diwrnod 2 – dydd Mawrth<br>11.2.20<br><br>Ysgol Ddewisol</td><td>Ethos, Gwerthoedd a Chasglu Data<br><br>Mae athrawon dan hyfforddiant yn dechrau dilyn eu llinellau ymholi ac yn casglu data cyffredinol i geisio ateb eu cwestiynau ymchwil. Gallai'r gweithgarwch hwn gynnwys:<br>- Nodiadau naratif ac arsylwi;<br>- Siartiau symudiad (sosiogram);<br>- Cynlluniau ystafell ddosbarth;<br>- Mapiau swigen;<br>- Rhaglenni padlet.<br><br>Bydd pob ystyriaeth foesegol o ran gwybodaeth ddienw, cydsyniad a chaniatâd wedi cael sylw ym mharatoadau'r brifysgol.</td></tr>
<tr><td>Diwrnod 3 – dydd Mercher<br>12.2.20<br><br>Ysgol Ddewisol</td><td>Adfyfyrio a Chynllunio Rhoi Prawf (Athrawon dan hyfforddiant a'r Ymgynghorydd Proffesiynol)<br><br>Dylai'r diwrnod hwn ganolbwyntio ar y canlynol:<br>- Adfyfyrio ar y wybodaeth a gasglwyd hyd yma;<br>- Gwneud cysylltiadau â darllen cefndirol;<br>- Rhannu'n feirniadol yr hyn a ddarllenwyd ac a arsylwyd hyd yn hyn yn fodd o gefnogi'r gweithgarwch ymchwil sydd i ddod.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Mae disgwyl i bob athro dan hyfforddiant lunio map meddwl o gwestiynau a fireiniwyd a fydd yn ceisio ateb yn ystod profion y ddau ddiwrnod nesaf. Er enghraifft:<br><br><br>Gyda'r Ymgynghorydd Proffesiynol, dylid cynllunio'r cyfleoedd i gasglu data a chytuno arnynt. |
| Diwrnodau 4 a 5<br>Dydd Iau a dydd Gwener<br>13.2.20-14.2.20<br><br>Ysgol Ddewisol<br><br>Prawf | **Prawf**<br><br>Neilltuir y ddau ddiwrnod hyn i ymchwiliad sy'n canolbwyntio'n fwy ar y meysydd ymchwil. Bydd athrawon dan hyfforddiant yn gweithio mewn cydweithrediad â staff, disgyblion yr ysgol ac â'i gilydd i gasglu data sy'n gysylltiedig â'u cwestiynau. Gallai'r gweithgareddau gynnwys:<br><br>- Cyfweld y staff perthnasol;<br>- Llwybr staff/disgyblion (grŵp);<br>- Craffu ar bolisïau/dogfennaeth;<br>- Llais y disgybl (grwpiau);<br>- Ystyriaeth o gysylltiadau ehangach – amlasiantaeth, cymuned, rhieni;<br>- Holiadur;<br>- Adolygu'r data;<br>- Adolygu'r cyfleoedd dysgu proffesiynol;<br>- Ystyried materion perthnasol sy'n berthnasol i'r maes ymchwil – pwyntiau pontio, cyfraniad llywodraethwyr.<br><br>Nid yw hon yn rhestr gyflawn gan fod llawer yn dibynnu ar gwestiwn ymchwil yr athro dan hyfforddiant. Yn ystod y cyfnod hwn, eir ati o hyd i lenwi'r adroddiad adfyfyriol â gwybodaeth berthnasol ar ffurf proses barhaus. |
| Hanner tymor<br><br>Lleoliad Prifysgol | **Oedi ac Adolygu**<br><br>Mae athrawon dan hyfforddiant yn mynd i diwtorial gyda'u tiwtor yn y brifysgol i adolygu'r wybodaeth hyd yn hyn a nodi camau pellach. |
| Diwrnod 6 | **Adfyfyrio, Adolygu ac Egluro** |

| | |
|---|---|
| Dydd Llun 24.2.20<br>Ysgol Ddewisol<br><br>Rhannu | Dylai athrawon dan hyfforddiant gwblhau unrhyw gamau a nodwyd yn nhiwtorial y brifysgol a defnyddio'r amser i adolygu ac egluro agwedd ar ei hymchwil sydd heb ei hateb.<br><br>Dylid rhannu'r canfyddiadau â chyfoed er mwyn cynnig llygad feirniadol, ac wedyn dylid cwblhau'r adroddiad.<br><br>Dylai'r Ymgynghorydd Proffesiynol sicrhau bod yr holl athrawon dan hyfforddiant ar drywydd cwblhau'r adroddiad. |
| Diwrnod 7<br>Dydd Mawrth 25.2.20<br><br>Ysgol Ddewisol<br><br>Rhannu | **Cyflwyno mewn Lleoliad Proffesiynol (Rhannu)**<br><br>Ar ddiwrnod olaf yr elfen ddewisol bydd pob myfyriwr yn cyflwyno canfyddiadau'r prosiect ymchwil mewn lleoliad proffesiynol gyda staff yn yr ysgol.<br><br>Dylai athrawon dan hyfforddiant ganolbwyntio ar sgiliau cyflwyno gan gynnwys mynegi syniadau'n glir, defnyddio tystiolaeth i gefnogi honiadau a chyfathrebu mewn modd proffesiynol sy'n cefnogi deialog broffesiynol.<br><br>Gellir lanlwytho tystiolaeth o'r Profiad Dewisol i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP). |

**Amserlen Awgrymedig ar gyfer Elfennau Dewisol TAR**

| Lleoliad a Dyddiad | Gweithgarwch |
|---|---|
| Diwrnod 1<br>Dydd Llun 2.3.20<br><br>Ysgol Ddewisol<br><br>Cyfarfod | **Diwrnod Cynefino** – dod i adnabod yr ysgol a'i chyd-destun lleol. Er enghraifft:<br>- Disgwyliadau ynghylch ymddygiad proffesiynol mewn ysgol<br>- Dyrannu ystafell ganolfan/lle gwaith<br>- Taith o gwmpas yr ysgol a chyfarfod â phobl allweddol<br><br>**Cyfarfod –** caiff athrawon gyfle i rannu eu rhesymwaith a chanolbwyntio gyda'r Ymgynghorydd Proffesiynol a'i gilydd yn fodd o ymarfer eu llinellau ymchwil.<br><br>**Cyfarfod** – caiff athrawon dan hyfforddiant gyfle i ymwneud â pholisïau perthnasol ysgolion.<br><br>Gyda'r Ymgynghorydd Proffesiynol, dylid cynllunio'r cyfleoedd i gasglu data a chytuno arnynt. |
| Diwrnodau 2 a 3<br>Dydd Mawrth a dydd Mercher 3.3.20 a 4.3.20 | **Prawf – Casglu Data** |

| | |
|---|---|
| Ysgol Ddewisol<br><br>Prawf | Mae athrawon dan hyfforddiant yn dechrau dilyn eu llinellau ymholi ac yn casglu data cyffredinol i geisio ateb eu cwestiynau ymchwil. Gallai'r gweithgarwch hwn gynnwys:<br><br>- Cyfweld y staff perthnasol;<br>- Llwybr staff/disgyblion (grŵp);<br>- Craffu ar bolisïau/dogfennau;<br>- Llais y disgybl (grwpiau);<br>- Ystyriaeth o gysylltiadau ehangach – amlasiantaethol, cymunedol, rhieni;<br>- Holiadur;<br>- Adolygu'r data;<br>- Adolygu'r cyfleoedd dysgu proffesiynol;<br>- Ystyried materion perthnasol sy'n berthnasol i'r maes ymchwil – pwyntiau pontio, cyfraniad llywodraethwyr.<br><br>Bydd pob ystyriaeth foesegol o ran gwybodaeth ddienw, cydsyniad a chaniatâd wedi cael sylw ym mharatoadau'r brifysgol. |
| Diwrnod 4<br>Dydd Iau 5.3.20<br><br>Ysgol Ddewisol<br><br>Paratoi i Rannu | **Adfyfyrio a Chynllunio Rhoi Prawf (Athrawon dan hyfforddiant a'r Ymgynghorydd Proffesiynol)**<br><br>Dylai athrawon dan hyfforddiant ddefnyddio'r amser i adolygu ac egluro unrhyw agwedd ar ei hymchwil sydd heb ei hateb.<br><br>Dylid rhannu'r canfyddiadau â chyfoed er mwyn cynnig llygad feirniadol, ac wedyn dylid cwblhau'r adroddiad.<br><br>Dylai'r Ymgynghorydd Proffesiynol sicrhau bod yr holl athrawon dan hyfforddiant ar drywydd cwblhau'r adroddiad. |
| Diwrnod 7<br>Dydd Gwener 6.3.20<br><br>Ysgol Ddewisol<br><br>Rhannu | **Cyflwyno mewn Lleoliad Proffesiynol (Rhannu)**<br><br>Ar ddiwrnod olaf yr elfen ddewisol bydd pob myfyriwr yn cyflwyno canfyddiadau'r prosiect ymchwil mewn lleoliad proffesiynol gyda staff yn yr ysgol.<br><br>Dylai'r cyflwyniadau fod ar ffurf crynodeb gweithredol ac ni ddylent fod yn hir.<br><br>Dylai athrawon dan hyfforddiant ganolbwyntio ar sgiliau cyflwyno gan gynnwys mynegi syniadau'n glir, defnyddio tystiolaeth i gefnogi honiadau a chyfathrebu mewn modd proffesiynol sy'n cefnogi deialog broffesiynol.<br><br>Gellir Lanlwytho tystiolaeth o'r Profiad Dewisol i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP). |

## Datblygu Sgiliau Ymchwil – addysgu sgiliau ymchwil yn benodol trwy gamau cynnydd sydd wedi eu mapio

Bydd yr holl randdeiliaid yn PDPA yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r pedwar anian ymchwil canlynol:

- Bod yn sgeptigol;
- Bod yn foesegol;
- Bod yn ymchwilydd medrus;
- Bod yn rhan o broffesiwn sy'n ymholi.

Eglurir yr anianau ymchwil isod gan roi enghreifftiau o'r wybodaeth, y sgiliau, y ddealltwriaeth a'r ymddygiadau:

| *Anian* | *Anian* | Gwybodae |
|---|---|---|
| *Bod yn sgeptigol* | *Bod yn sgeptigol* | Deall tystiol<br>• Boc eco |
| *Bod yn foesegol* | *Bod yn foesegol* | Deall sylfae<br>• Gw<br>• Dea<br>• Dea |
| *Bod yn ymchwilydd medrus* | *Bod yn ymchwilydd medrus* | Deall egwyc<br>• Dea<br>• Dea<br>• Dea<br>Deall sut i a<br>• Def<br>• Boc<br>Gwerthfawr<br>a dylanwad<br>• Boc<br>Deall sut i<br>heffeithiolr<br>• Boc<br>• Diff |
| *Bod yn rhan o broffesiwn sy'n ymholi* | *Bod yn rhan o broffesiwn sy'n ymholi* | Cyfrannu i g<br>• Gw<br>• Cyf<br>• My |

Bydd yr holl randdeiliaid yn PDPA yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r anianau hyn. Trwy brosiectau ymchwil agos at ymarfer a ddyluniwyd yn ofalus, sy'n amrywio o astudiaethau mewn gwersi i aseiniadau ysgrifenedig mwy ffurfiol, bydd athrawon dan hyfforddiant, athrawon sy'n ymarfer a thiwtoriaid prifysgol yn creu cymunedau ymholi sy'n ceisio datrys problemau go iawn ar lawr dosbarth. Rhannir canfyddiadau'r prosiectau hyn mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys cyfarfodydd staff, cyfarfodydd llywodraethwyr ac yng ngwahanol gynadleddau PDPA. Diben y gweithgareddau hyn yw cefnogi'r gwaith trawsnewid ar draws y Bartneriaeth.

### Datblygu Sgiliau Ymchwil mewn rhaglenni AGA

Yn achos rhaglenni AGA, mae datblygiad yr anianau ymchwil wedi ei fapio ar draws y modylau wrth i ddatblygiad mwy ffocysedig ddigwydd yn y modwl *Ymchwilio i'r dysgwr – beth, sut a pham rwy'n addysgu?*

Yn y modwl hwn, dyrannir diwrnodau penodol yn yr ysgol i ddatblygiad ymchwil a rhoddir manylion y rhain isod:

### Diwrnodau ymchwil yn yr ysgol

| Dyddiad | Carfan/Lleoliad | Gweithgarwch |
|---|---|---|
| Dydd Iau 30.4.20 | BA1<br>Ysgol PAP1 | Modwl Ymchwil Blwyddyn 1 (ECAD4010)<br>Defnyddio sgiliau arsylwi<br><br>Bydd athrawon dan hyfforddiant yn ymweld o'r newydd â'u hysgol PAP1 ac yn cynnal gwaith ymchwil gan ddefnyddio sgiliau arsylwi i gasglu data.<br><br>Rhoi prawf ar raglen arsylwi mewn ysgol gan ddefnyddio Graddfa Leuven mewn ymarfer. Bydd y ffocws ar ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen. |
| Dydd Llun 2.3.20 | BA2<br>Ysgol PAP2 | Modwl Ymchwil Blwyddyn 2 (ECAD5010)<br>Defnyddio'r dull Mosaig a holiadur<br><br>Bydd athrawon dan hyfforddiant yn ymweld â'u hysgol PAP2 ac yn cynnal astudiaeth ymchwil ar raddfa fach gan ddefnyddio'r dull Mosaig a holiadur. |
| Dydd Gwener 13.12.19 | TAR<br>Ysgol PAP1 | Modwl Ymchwil TAR (ECAD7004)<br>Cynnig Ymchwil<br><br>Bydd myfyrwyr yn ymweld â'u hysgol PAP1 ar 13 Rhagfyr er mwyn cwblhau eu ymholiad ymchwil. |
| Dydd Llun 3.2.20 a dydd Mawrth 4.2.20 | TAR<br>Ysgol PAP1 | Bydd yr 'Astudiaeth Gwersi' yn digwydd ar 3 a 4 Chwefror 2020. |

**Gwybodaeth am Ddiwrnod Ymchwil**

**Diwrnod Ymchwil – BA1, dydd Iau 30.04.20**

Mae'r Diwrnod Ymchwil yn gysylltiedig â *Chylch 1 Astudiaethau Proffesiynol a Phedagogaidd*: *Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham rydw i'n addysgu? Modwl Ymchwil Blwyddyn 1 (ECAD4010).* Yn ystod y modwl hwn, cyflwynir athrawon dan hyfforddiant i le ymchwil mewn ymarfer addysgol a'i heffaith ar addysgu a dysgu. Byddant yn dechrau dadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth ymchwil a gwneud cysylltiadau ag arfer personol. Datblygir arfer moesegol a dealltwriaeth o'i berthynas ag ymchwil ar lawr dosbarth. Erbyn diwedd y modwl, bydd modd i athrawon dan hyfforddiant ddeall, defnyddio a gwerthuso dull ymchwil arsylwi wrth gynnal arfer moesegol.

Ar gyfer Diwrnod Ysgol Ymchwil, bydd yr athrawon dan hyfforddiant yn ymweld o'r newydd â'u hysgol PAP1. Byddant yn cynnal gwaith ymchwil gan ddefnyddio dull ymchwil arsylwi i gasglu gwybodaeth am werth defnyddio'r dull ymchwil hwn. Byddant yn rhoi prawf ar raglen arsylwi a dysgwyr Cyfnod y Sylfaen gan ddefnyddio Graddfa Leuven mewn ymarfer.

Cyn y Diwrnod Ymchwil, rhoddir cyflwyniad i arsylwadau, Graddfa Leuven a'r materion moesegol. Yn dilyn yr ymweliad, bydd athrawon dan hyfforddiant yn mynd ati i adfyfyrio'n feirniadol trwy drafod eu canfyddiadau a gwerthuso'n feirniadol werth defnyddio arsylwadau/Graddfa Leuven yn ddull ymchwil.

**Diwrnod Ymchwil – BA2, dydd Llun 02.03.20**

Mae'r Diwrnod Ymchwil yn gysylltiedig â *Chylch 2 Astudiaethau Proffesiynol a Phedagogaidd: Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham rydw i'n addysgu? Modwl Ymchwil Blwyddyn 2 (ECAD5010).* Yn ystod y modwl hwn, mae athrawon dan hyfforddiant yn datblygu gwybodaeth gynyddol a medrusrwydd wrth ddefnyddio ystod o ddulliau ymchwil (cyfweliadau, holiaduron a grwpiau ffocws) i greu data. Archwilir gwerth y dulliau hyn gyda ffocws ar gyfiawnhau'r dewisiadau pedagogaidd a wneir ar lawr dosbarth.

Ar gyfer y Diwrnod Ysgol Ymchwil, bydd yr athrawon dan hyfforddiant yn ymweld o'r newydd â'u hysgol PAP2. Byddant yn cynnal astudiaeth ymchwil ar raddfa fach gan ddefnyddio'r dull Mosaig a holiadur. Cyn yr ymweliad, byddant wedi llunio eu cwestiwn ymchwil a dylunio eu dulliau ymchwil (cwestiynau cyfweld, arsylwadau grŵp ffocws a holiadur).

Byddant yn defnyddio'r dulliau hyn yn ystod y diwrnod gydag athrawon, staff a disgyblion i gynnal eu gwaith ymchwil. Bydd ffocws y gwaith ymchwil yn amrywio o'r naill fyfyriwr i'r llall. Meysydd astudio posibl fyddai sgiliau llythrennedd/rhifedd, addysgu yn yr awyr agored, asesu ar gyfer strategaethau dysgu, ffocws sy'n benodol i'r pwnc (Maes Dysgu a Phrofiad), ac ati.

Yn dilyn yr ymweliad, bydd athrawon dan hyfforddiant yn mynd ati i adfyfyrio'n feirniadol trwy drafod eu canfyddiadau a gwerthuso'n feirniadol werth defnyddio'r dull Mosaig a holiaduron yn ddull ymchwil ar lawr dosbarth.

**<u>Diwrnodau Ymchwil: TAR (Cynradd ac Uwchradd)</u>**

Cysylltir y Diwrnodau Ymchwil â'r modwl o dan y teitl *Astudiaethau Proffesiynol a Phedagogaidd: Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham rydw i'n addysgu? (ECAD7004)*. Yn ystod y modwl hwn, bydd yr athrawon dan hyfforddiant yn datblygu sgiliau ymchwil trwy gynnal ymchwiliad agos at ymarfer a fydd yn trawsnewid agwedd ar eu harfer personol a chael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr. Byddant yn adfyfyrio'n feirniadol ar le canolog arfer moesegol mewn ymchwil ar lawr dosbarth a byddant yn dylunio ac yn defnyddio methodolegau ymchwil priodol, gan werthuso'n feirniadol dystiolaeth ymchwil i gefnogi penderfyniadau pedagogaidd.

Cynhelir yr holl waith casglu data yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan BERA (2018), Y Drindod Dewi Sant (2017) a CGA (2019). Cyn unrhyw weithgarwch ymchwil, bydd myfyrwyr yn cyflwyno cais am gymeradwyaeth foesegol gan Bwyllgor Moeseg yr Athrofa, a **bydd angen chydsyniad rhieni a chaniatâd dysgwyr** cyn y casglir unrhyw ddata.

Bydd yr ymchwil yn seiliedig ar ddull 'Astudiaeth Gwers' (Dudley, 2014), gan gynnwys arsylwi, cyfweld ac adfyfyrio a bydd yn digwydd yn **ysgol PAP1** athrawon dan hyfforddiant. Bydd myfyrwyr yn ymweld â'u hysgol PAP1 ar **13 Rhagfyr** er mwyn cwblhau eu ffocws ar eu hymholiad ymchwil. Bydd yr Astudiaeth Gwersi yn digwydd **ar 3 a 4 Chwefror 2020**.

## Llwybr Datblygu'r Iaith Gymraeg

Dyluniwyd rhaglenni AGA PDPA i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru o weld miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Adlewyrchir yr ymrwymiad hwn yn y Memorandwm Cytundeb sy'n sail i waith PDPA. Ymhlith y prif amodau ynghylch datblygu'r Gymraeg mae:

**Ysgolion Arweiniol**

Mae ysgolion arweiniol PDPA yn gyfrifol ar y cyd â'r brifysgol am gynorthwyo gyda datblygu a hyrwyddo'r Gymraeg. Gellir dangos hyn trwy ymrwymiad amlwg i ddatblygu'r Gymraeg, yn unol â gofynion cenedlaethol a rhai CGA. Bydd yr Ysgolion Arweiniol yn gwneud hyn trwy'r canlynol:

- Dyrannu cydlynydd Cymraeg i sicrhau cefnogaeth i ddatblygiad iaith Gymraeg athrawon dan hyfforddiant ar draws y rhwydwaith;
- Nodi a datblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff PDPA yn y brifysgol pan fo'n briodol ac hefyd y gwrthwyneb;
- Sicrhau y gall staff yn yr ysgol fanteisio ar ddysgu proffesiynol priodol, gan gynnwys datblygiad o ansawdd uchel i fentoriaid;
- Chwarae rhan weithgar yn rhaglenni a gweithgareddau PDPA. Er enghraifft, trwy gyfrannu i: rannu gwybodaeth arbenigol, arbenigedd a chyfleusterau; ymchwil agos at ymarfer; cynnig profiadau dewisol; datblygu sgiliau iaith Gymraeg athrawon dan hyfforddiant; recriwtio a dewis myfyrwyr; cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff PDPA; a rhannu arfer da yn y bartneriaeth.

Ym mlwyddyn academaidd 2019/20, mae PDPA wedi cytuno ar fodel lle dyrannir 10 niwrnod o adnodd Ysgol Arweiniol i gefnogi'r iaith Gymraeg. Dyluniwyd gweithgarwch y Bartneriaeth i ganolbwyntio ar gefnogi Strategaeth Datblygu'r Gymraeg, a hithau'n rhan ganolog o fodel achrededig PDPA. Dros amser, mae Strategaeth Datblygu'r Gymraeg yn rhwymo PDPA i wneud y canlynol:

- Cynnig amrywiaeth o gyrsiau byr a hir i wella sgiliau iaith Gymraeg holl staff PDPA;
- Cyflwyno'n raddol Lwybr Datblygu'r Gymraeg i wella sgiliau Cymraeg holl athrawon dan hyfforddiant PDPA er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd lefel o gymhwysedd i gymhwyso i weithio yn y sector, boed yn siaradwyr neu'n athrawon Cymraeg;
- Cryfhau gallu athrawon dan hyfforddiant PDPA i brynu a dysgu arbenigedd pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Cynnydd yn nifer y myfyrwyr Cymraeg eu hiaith a dderbynnir ar y rhaglen.

Yn yr un modd â phob agwedd arall ar y model achrededig, mae gofyn i'r brifysgol, rhwydweithiau ac ysgolion arweiniol ddangos cynnydd o ran yr agwedd hon ar y model. O'r herwydd, dylai agendâu cyfarfodydd rhwydwaith gofnodi'r drafodaeth a'r prosesau cynllunio yn eu cylch, gyda chymorth y Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol).

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi sut y bydd rhwydweithiau sy'n ymwneud â'r agwedd benodol hon ar y model achrededig (h.y. datblygu'r Gymraeg) yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar wneuthuriad ieithyddol y rhwydwaith honno, ac felly croesawir gwaith cydweithredol. Gallai'r modd y gall ysgolion gefnogi datblygiad yr iaith Gymraeg gynnwys:

- Staff yn yr ysgol sy'n manteisio ar gyrsiau dysgu a gynigir gan y brifysgol, gan gynnwys y rhaglen sabothol;
- Defnyddio arbenigedd tîm 'Rhagoriaith' y brifysgol i fwrw golwg dros alluoedd iaith y rhwydwaith yn effeithiol i'w ddefnyddio'n feincnod;
- Defnyddio arbenigedd tîm Rhagoriaeth y Brifysgol i ddatblygu rolau mentoriaid iaith Gymraeg ar draws rhwydweithiau;
- Ysgolion yn defnyddio eu harbenigedd eu hunain i gefnogi gallu'r brifysgol i wella sgiliau iaith athrawon dan hyfforddiant – yn siaradwyr ac yn athrawon;
- Ysgolion sy'n manteisio ar gyrsiau byr Canolfan Peniarth ar sail ei chyhoeddiadau/adnoddau Cymraeg print a digidol. Bydd y rhain yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu ac ehangu eu gwybodaeth bersonol am y Gymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg, bydd yr hyfforddiant yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynghylch sut mae'n annog plant i siarad, dysgu trafod, sillafu ac ysgrifennu trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyflwynir addysgeg sy'n gysylltiedig â darparu'r Gymraeg a dilyniant a thrwy hynny ddarparu sylfaen a dealltwriaeth gadarn i'r athro dan hyfforddiant wrth iddo/i symud ymlaen yn ystod cyfnodau PAP;
- Ysgolion yn manteisio ar gyfleoedd Rhagoriaith i athrawon dan hyfforddiant ddysgu arbenigedd pwnc yn y Gymraeg. Bydd y cyrsiau byr a ddarperir yn caniatáu i athrawon dan hyfforddiant ddysgu gwybodaeth a sgiliau personol yn Gymraeg yn ogystal â datblygu dealltwriaeth o'r Cwricwlwm cyfredol a'r Cwricwlwm drafft ar gyfer canllawiau statudol Cymru sy'n gysylltiedig â Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu;

- Ysgolion yn cyfrannu amser ac arbenigedd i strategaeth recriwtio a marchnata’r brifysgol, wedi eu targedu’n benodol at gynyddu nifer yr athrawon dan hyfforddiant sy’n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Cyfnewid Cyfnodau – Cynradd ac Uwchradd

| Carfan | Cyfnewid Cyfnod |
|---|---|
| TAR (cynradd ac uwchradd) | 26.2.20 – 28.2.20 |
| BA1 a BA2,BA3 | Dim Cyfnewid Cyfnod |

Nod ‘Cyfnewid Cyfnod’ yw datblygu dealltwriaeth yr athrawon dan hyfforddiant o’r continwwm dysgu ac mae’n canolbwyntio ar y pwyntiau ffocws canlynol:

- Dylunio’r cwricwlwm (gan gynnwys paratoi ar gyfer *Dyfodol Llwyddiannus*):
- Pwyntiau pontio (rhwng y cartref, o flwyddyn i flwyddyn, CS i CA2, cynradd i uwchradd);
- Dulliau pedagogaidd (gan gynnwys cyfeiriad at arbenigedd pwnc a dulliau cynradd o ddysgu).

Fel arfer, bydd y profiad Cyfnewid Cyfnod yn digwydd yn Ysgolion Arweiniol y Rhwydwaith, a bydd yn cynnwys mewnbwn gan ystod o staff cymorth, arsylwi ar lawr dosbarth ac chyfleoedd i adfyfyrio ar y cyd.

Er na asesir y lleoliad hwn, dylai athrawon dan hyfforddiant gael cyfleoedd strwythuredig i weithio gyda grwpiau o ddisgyblion, cyfathrebu â disgyblion ac athrawon, a chefnogi addysgu ar lawr dosbarth. Dylent hefyd gael cyfle i arsylwi a chymryd rhan mewn gwahanol leoliadau gyda gwahanol leoliadau a gwahanol grwpiau oedran.

O flaen profiad ysgol Cyfnewid Cyfnod, anogir athrawon dan hyfforddiant i ystyried eu tybiaethau personol ynghylch cwricwlwm, addysgeg a gweithgareddau pontio yn eu cyd-destun er mwyn iddynt roi prawf ar y rhain yn erbyn eu harsylwadau ac adfyfyrio ar y rhain i drawsnewid meddyliau. Er mwyn i’r profiad ddylanwadu ar gynnydd personol, caiff athrawon dan hyfforddiant eu herio i ystyried sut y byddant yn defnyddio eu gwybodaeth yn eu cyd-destun newydd.

Mae’r Cyfnewid yn dilyn y dull ‘Cyfarfod, Prawf, Rhannu’, fel y gwelir isod:

**Day 1 10.2.20 MEET**

**University**

Introduction.

'Meet' 3 foci of primary/secondary education in sessions (curriculum, transition & pedagogies) through engagement with key literature.

Identify methods of information collection.

Make notes and reflect on main features.

**Day 2 & 3 26 & 27.2.20 TEST**

**Primary or Secondary School**

Observe a range of classes.

Speak with learners and members of staff.

Evaluate observations.

Compare and contrast with experiences in primary/secondary school/s.

**Day 4 28.2.20 TEST & SHARE**

**School and University Repository**

a.m. continue the testing phase.

p.m. time should be given to upload summary of Phase Swap to the university repository and to upload evidence to the Professional Learning Passport.

Complete evaluation of experience (online).

### Tystiolaeth o'r Cyfnewid Cyfnod

Disgwylir i athrawon dan hyfforddiant, mae disgwyl i athrawon dan hyfforddiant gadw log naratif yn eu *Dyddlyfr Dysgu* a chael cymorth i wneud cysylltiadau â'u cyd-destunau personol.

Lanlwythir tystiolaeth o'r cyfnewid cyfnod i ystorfa'r brifysgol a gellir ei defnyddio i ategu'r Safonau Addysgu Proffesiynol trwy'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP).

### Gweithio ar draws rhwydweithiau

Ar gyfer rhwydweithiau cynradd yn unig ac uwchradd yn unig, bydd angen gweithio ar draws rhwydweithiau i hwyluso'r gwaith o gyfnewid cyfnodau. Bydd y Tiwtoriaid Prifysgol (Proffesiynol) a enwir yn cefnogi'r gwaith hwn.

## Profiad Amgen

| Carfan | Dyddiad y Profiad Amgen |
|---|---|
| TAR | 17.2.20 – 18.2.20 |
| BA2 | 8.6.20 – 12.6.20 |

Er mwyn rhoi golwg ehangach ar addysg i athrawon dan hyfforddiant mae Profiad Amgen wedi ei gynnwys yn y rhaglenni israddedig ac ôl-raddedig.

Bydd cynnwys y Profiad Amgen yn cefnogi athroniaeth y model trawsnewid: caiff athrawon dan hyfforddiant gyfle i gydnabod effaith addysg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ac i mewn i'r gymuned ehangach. Bydd y ddarpariaeth yn ehangu blwyddyn academaidd 2018-19, lle cafodd athrawon dan hyfforddiant TAR eu trwytho mewn amrywiaeth o weithgareddau ar draws darpariaeth Amgueddfeydd Cymru. Roedd y prosiect hwn a gydgrëwyd yn cynnwys ymgysylltu mewn amrywiaeth o gyfleoedd sy'n seiliedig ar y cwricwlwm a'r gymuned.

Mae'r Profiad Amgen yn brofiad na chaiff ei asesu, ond bydd athrawon dan hyfforddiant yn rhoi gwybod am effaith addysgol eu lleoliad amgen trwy adroddiad ysgrifenedig, gan ddilyn fformat adolygiadau 'Arfer Da' Estyn. Bydd y rhain ar gael i bob athro dan hyfforddiant yn y garfan.

Trefnwyd y lleoliadau hyn gan PDPA (Tiwtoriaid Proffesiynol: Proffesiynol) mewn cydweithrediad â chydweithwyr yn yr Athrofa ehangach. Gwahoddir Ysgolion Partner i rannu cyfleoedd lleoliad amgen posibl Swyddfa Bartneriaeth PDPA wrth iddynt godi.

# Llawlyfr Partneriaeth Rhan 2: Cefnogi Dysgu Proffesiynol

## Datblygiad mentoriaid

Un o bedair sylfaen model trawsnewidiol PDPA yw ‘creu perthnasoedd ystyrlon’. Un o’r perthnasoedd hyn yw’r un rhwng y mentor a’r mentorai. Defnyddia PDPA Fodel Mentora lle mae’r ffocws ar y berthynas rhwng y mentor a’r mentorai o ran gwella’r hyn a ddysga’r disgyblion. Mae’n fodel sy’n seiliedig ar sgyrsiau dysgu proffesiynol lle mae theori ac ymarfer wedi eu hintegreiddio’n llwyr.

Gan ganolbwyntio ar ddisgyblion, mae’r model yn pwysleisio rôl y mentor yn natblygiad sgiliau pedagogaidd yr athro dan hyfforddiant trwy sgyrsiau dysgu proffesiynol a sy’n seiliedig ar ddysgu a thystiolaeth.[2] Adlewyrcha rôl y mentor yn gyfaill ac yn ymgynghorydd beirniadol. O’r herwydd, mae’r mentor yn gefnogwr ac yn heriwr ac yn chwaraewr pwysig yn natblygiad hunaniaeth bersonol yr athro dan hyfforddiant.[3]

Mae tair lefel fentora i PDPA fel y gwelir yn y ffigwr isod:




**Datblygiad Mentoriaid Gradd 1 PDPA**

Mae’r mewnbwn hwn yn orfodol i holl staff PDPA a fydd yn rhan o ddatblygiad yr athrawon dan hyfforddiant. Mae’r cyflwyniad hwn i fentora oddi mewn i PDPA yn cynnwys cyfeiriad at fodel trawsnewidiol addysg athrawon a ffocws ar nodweddion mentoriaid.

Fel arfer, sesiwn 2 awr fydd Gradd 1.

[2] Earl, K. M. & Timperley H. eds. 2009. *Professional Learning Conversations: Challenges in Using Evidence for Improvement*. Dordrecht: Springer.

[3] McDonald, L. 2009. *Responsiveness of Student Teachers to the Supervision of Associate Teachers* [ONLINE] Available at: www.leeds.ac.uk/educol/documents/183638.doc. [Accessed: November 2017].

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20, darperir model Gradd 1 Datblygiad Mentoriaid PDPA i bob Ysgol Arweiniol, gyda chyfle i Ysgolion Partner ymuno â'u cydweithwyr yn y sesiwn hon.

I drefnu sesiwn Gradd 1, cysylltwch â naill ai:

Catharine Bleasdale:
c.bleasdale@pcydds.ac.uk:

❖ Neu Swyddfa'r Bartneriaeth:
partnership@uwtsd.ac.uk

**Datblygiad Mentoriaid Gradd 2 PDPA**

Mae'r mewnbwn yn orfodol i'r holl Fentoriaid a Thiwtoriaid y Brifysgol (Proffesiynol). Ceisia rhaglen Gradd 2 sicrhau ymwybyddiaeth feirniadol gynyddol o benderfyniadau mentora a gwahanol fodelau mentora ar ddysgu proffesiynol yr athro dan hyfforddiant a'r effaith ganlynol ar ddeilliannau disgyblion. Mae disgwyl i bob mentor gweithredol gyflawni'r rhaglen hon, ac mae elfennau ohoni'n cynnwys:

- Cynnal deialogau proffesiynol â grwpiau o athrawon dan hyfforddiant mewn amgylchedd o adfyfyrio cyffredin gyda ffocws ar yr hyn y mae disgyblion yn ei ddysgu;
- Archwilio adborth heb werthuso i ddatblygu hunan hyder proffesiynol;
- Nodi a chydnabod y corff o dystiolaeth sy'n briodol i SAC;
- Cynnal trafodaeth driawd ar gyfer dyfarniadau crynodol SAC;
- 'Achos pryder' a gweithdrefnau cyfoethogi athrawon.

Y ffocws penodol yw gallu gwneud sgyrsiau dysgu proffesiynol sy'n seiliedig ar ddysgu; o ran y sgyrsiau mentora hyn ystyrir bod yr hyn a ddysga disgyblion yn ganolog i ddatblygiad pedagogaidd athrawon dan hyfforddiant.

Mae angen i ddatblygiad mentoriaid Gradd 2 gael hyd at 15 awr o fewnbwn.

**Cyfle am waith achredededig**

Mae modd i fentoriaid sy'n dilyn y rhaglen Gradd 2 gofrestru ar fodwl cysylltiedig, a bydd cwblhau hwn yn llwyddiannus yn arwain at **30 o gredydau L7**. Ar gyfer y modwl hwn, bydd angen cyflwyno asesiadau sy'n gysylltiedig â dwy elfen y rhaglen:

- Elfen 1 - Dysgu am fodelau a sgiliau sgyrsiau mentora, arfer y sgiliau ac ysgrifennu myfyrdod beirniadol;

- Elfen 2 – Cynnal adolygiad beirniadol strwythurol ar y llenyddiaeth fentora.

**Datblygiad Mentoriaid Gradd 3 PDPA**

Mae'r mewnbwn yn orfodol i'r holl Arweinwyr Rhwydwaith, Uwch Fentoriaid a Thiwtoriaid Prifysgol (Proffesiynol). Mae datblygiad Gradd 3 i'r rhai sy'n gyfrifol am gydlynu'r gweithgarwch mentora yn PDPA. Caiff cyfranogwyr eu grymuso i arwain cymunedau/sefydliadau o ran ymgorffori agwedd gadarn at arfer mentora ar draws eu cylch dylanwad a'r tu hwnt. Mae astudio ar Radd 3 yn cynnwys ymchwil agos at ymarfer sy'n gysylltiedig ag arwain gwaith mentora, gyda phwyslais archwilio cyffredin a chydweithredol dulliau a gymerwyd ar gyfer gwahanol agweddau ar fentora oddi mewn i PDPA, er enghraifft defnyddio sgyrsiau dysgu proffesiynol sy'n seiliedig ar ddysgu proffesiynol. Mae ffocws ar arweinyddiaeth wrth fentora athrawon dan hyfforddiant a datblygu eraill oddi mewn i ysgol/rhwydwaith/partneriaeth PDPA yn hyn o beth.

Mae angen i ddatblygiad mentoriaid Gradd 3 gael hyd at 15 awr o fewnbwn.

**Cyfle am waith achrededig**

Mae modd i fentoriaid sy'n dilyn y rhaglen Gradd 3 gofrestru ar fodwl cysylltiedig, a bydd cwblhau hyn yn llwyddiannus yn arwain at **30 o gredydau L7**. Mae'r aseiniad yn cynnwys adroddiad effaith ynghylch adfyfyrio ar arwain prosesau mentora ar draws sefydliad ac effaith mentora effeithiol ar ganlyniadau disgyblion yn yr ysgol/rhwydwaith/PDPA.

I unigolion sy'n llwyddiannus ym modylau Gradd 2 a Gradd 3 y dyfernir y *Dystysgrif Ôl-raddedig: Mentora mewn Cyd-destunau Addysg.*

*Mae datblygiad mewnbwn Gradd 2 a Gradd 3 yn parhau a chaiff ei gyflwyno yn nhymhorau gwanwyn a haf 2020.*

## Rhaglen Ysgolion Ymchwil

Adlewyrcha dull PDPA o ddatblygu Ysgolion Ymchwil ar draws y bartneriaeth amcanion *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl,*[4] sy'n datgan:

> Caiff athrawon gyfleoedd i ddysgu'n broffesiynol mewn diwylliant a arweinir gan ymchwil, gan wybod bod athrawon rhagorol yn ddysgwyr rhagorol... [a'u bod yn cofleidio] diwylliant o ymholi, arloesi ac ymchwilio.

[4] Welsh Government. 2017. *Education in Wales: Our National Mission*. Cardiff: Welsh Government.

Gan adlewyrchu'r anianau ymchwil a ddatblygwyd yn rhaglenni AGA, mae Rhaglen Ysgolion Ymchwil PDPA wedi ei hadeiladu o gwmpas datblygu'r anianau ymchwil canlynol:

- Bod yn sgeptigol;
- Bod yn foesegol;
- Bod yn ymchwilydd medrus;
- Bod yn rhan o broffesiwn sy'n ymholi.

Bydd pob rhanddeiliad yn PDPA yn cymryd rhan yn natblygiad yr anianau hyn trwy gyflwyno'r rhaglen yn raddol, a thrwy ymgysylltu â rhaglenni AGA. Bydd Tiwtoriaid Prifysgol (Cwricwlwm) yn gweithio mewn cydweithrediad ag Ysgolion Arweiniol i gefnogi'r datblygiad hwn trwy gynnig sesiynau gweithdy ar y canlynol:

1. Ymchwil gweithredol a nodi cwestiwn ymchwil;
2. Manteisio ar wybodaeth ymchwil;
3. Ymchwil moeseg ar lawr dosbarth;
4. Dyluniad ymchwil ac offer ymchwil;
5. Dadansoddiad data;
6. Gwerthuso, gwarant a'r camau nesaf.

Ym mlwyddyn academaidd 2019/20, cytunodd PDPA ar fodel lle caiff naw diwrnod o adnodd Ysgol Arweiniol ei ddyrannu i gefnogi ymchwil, gyda chymorth y Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm) cyswllt:

| **Ysgol Arweiniol** | **Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm)**<br>**Rhaglen Ysgolion Ymchwil** |
|---|---|
| Ysgol Uwchradd Fitzalan | Iwan Ellis-Williams<br>i.ellis-williams@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Olchfa | Ishmael Lewis<br>Ishmael.lewis@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Coedcae | Alison Evans<br>Alison.evans2@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Llanhari | Catherine Morgan<br>c.morgan@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las | Nanna Ryder<br>n.ryder@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Y Preseli | Sioned Hughes<br>s.v.hughes@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Gynradd Cadle | Libby Chancer<br>Libby.chancer@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Gyfun y Bont-faen | Angella Cooze |

| Ysgol Arweiniol | Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm)<br>Rhaglen Ysgolion Ymchwil |
|---|---|
| | Angella.cooze@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Gyfun Pontarddulais | Carys Jennings<br>c.jennings@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Gyfun Treorci | Rachel Wallis<br>Rachel.wallis@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Gynradd Llangatwg | Shan Samuel-Thomas<br>Shan.samuel-thomas@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Gynradd Maes yr Haul | Rachel Bendall & Steve Hadley<br>Rachel.bendall@uwtsd.ac.uk<br>Stephen.hadley@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Pentrehafod | Peter Lloyd<br>Peter.lloyd@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Sant Thomas | Gail Parker<br>Gail.parker@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf | Jayne Morgan<br>Jayne.morgan@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Gynradd Parkland | Sian Brooks<br>s.brooks@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Gymunedol Doc Penfro | Tom Cox a Catharine Bleasdale<br>t.cox@uwtsd.ac.uk |
| Ysgol Cwm Brombil | Nerys Defis ac Aled Williams<br>Nerys.defis@uwtsd.ac.uk<br>Aled.p.williams@uwtsd.ac.uk |

Wrth i'r rhaglen ddatblygu dros y 18-24 mis nesaf, a'r Ysgolion Arweiniol wedi eu rhoi mewn sefyllfa i ledu gwybodaeth, bydd disgwyl iddynt wneud y canlynol:

- Cynnal gweithdai ymchwil ar gyfer ysgolion rhwydwaith (tua 6 y flwyddyn);
- Cyfrannu i'r gweithdai fel y bo'n briodol ac y cytunwyd ymlaen llaw;
- Arddangos ymholiadau pedagogaidd parhaus trwy gyflwyniad, poster neu weithdy yng nghynadleddau Anelu at Ragoriaeth a/neu Ddysgu Proffesiynol.
- Rhyddhau hyd at dri o staff sy'n rhan o ymholiad pedagogaidd ar gyfer hyd at 2 ddiwrnod y flwyddyn i gefnogi ysgolion rhwydwaith yn hyn o beth;
- Cydlynu rhan myfyrwyr AGA yn ymholiad pedagogaidd yr ysgol.

Yn yr un modd â phob agwedd arall ar y model achredig, mae gofyn i rwydweithiau a'r Ysgol Arweiniol ddangos cynnydd o ran yr agwedd hon ar y model. O'r herwydd, dylai agendâu cyfarfodydd rhwydwaith gofnodi'r drafodaeth a'r prosesau cynllunio yn eu cylch, gyda chymorth y Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol).

Bydd angen rhwng 18 a 24 o fisoedd i gyflwyno'r Rhaglen Ysgolion Ymchwil yn llawn. Gallai cyfarfodydd Rhwydwaith, felly, gofnodi penderfyniad i gwblhau'r agwedd hon ar y model yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21.

## Cymunedau ymarfer (yn datblygu dros amser)

Er mwyn datblygu strwythur sy'n gwneud y defnydd gorau ar adnoddau, mae rhwydweithiau PDPA wedi eu rhannu'n dair 'Cymuned', sef:

- PDPA y Gorllewin;
- PDPA y Canolbarth;
- PDPA y Dwyrain.

Mae gan bob Cymuned fynediad at dîm sy'n benodol i'r pwnc ynghyd ag arbenigedd, ac o wneud hyn mae'n rhan o'i 'chymuned ymarfer' ei hun sy'n cynnwys staff y brifysgol a'r ysgol. Mae ffurfio'r Cymunedau hyn, sydd ar wahân yn ddaearyddol, yn cynnwys:

**PDPA y Gorllewin**

- Doc Penfro Yr Ysgol Gymunedol
- Ysgol Gyfun Pontarddulais
- Ysgol Y Preseli
- Ysgol Coedcae

**PDPA y Canolbarth**

- Ysgol Gynradd Parkland
- Ysgol Gynradd Cadle
- Ysgol Gynradd Gymunedol Sant Thomas
- Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las
- Ysgol Olchfa
- Ysgol Uwchradd Pentrehafod
- Ysgol Cwm Brombil

**PDPA y Dwyrain**

- Ysgol Gynradd
- Ysgol Gynradd Llangatwg
- Ysgol Gyfun Y Bont-faen
- Ysgol Llanhari
- Ysgol Gyfun Treorci
- Ysgol Uwchradd

| | | |
|---|---|---|
| | | Esgob Llandaf yr Eglwys yng Nghymru<br>• Ysgol Uwchradd Fitzalan |

**Tiwtoriaid Prifysgol Cwricwlwm a Enwir**

Gall pob Ysgol Arweiniol ddefnyddio ei Thiwtor Prifysgol (Cwricwlwm) ei hun yn y Rhaglen Ysgolion Ymchwil, sy'n gallu gweithredu'n gwndid rhwng yr ysgol ac Arweinwyr Meysydd Profiad a Dysgu yn y brifysgol. Mae'r model hwn yn sicrhau bod gan bob un o'r Ysgolion Arweiniol fynediad at ei Thiwtor Prifysgol (Cwricwlwm) ei hun a all frocera cysylltiadau ag arbenigwyr Meysydd Dysgu a Phrofiad (ar gyfer pob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad).

Mae'r trefniant hwn yn sicrhau'r canlynol:

- Gellir neilltuo Tiwtoriaid Prifysgol (Cwricwlwm) fesul rhanbarth, a holl Ysgolion Partner Arweiniol PDPA wedi eu rhannu'n Dde-orllewin Cymru, Canol De Cymru a De-ddwyrain Cymru;
- Mae hyn yn sicrhau y neilltuir Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm) a enwir i bob un o Ysgolion Partner Arweiniol PDPA ar gyfer pob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad;
- Mae Ysgolion Partner Arweiniol PDPA yn cydweithredu i nodi bylchau mewn gwybodaeth/arbenigedd gofynnol sy'n benodol i bwnc ac yn cysylltu â'r Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm) ar gyfer cymorth a/neu gyfleoedd ymchwil/ymholi;
- Mae Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm), gyda chymorth Arweinydd Maes Dysgu a Phrofiad, yn brocera cymorth a/neu gyfleoedd ymchwil/ymholi ar gyfer ysgolion PDPA yn ôl y gofyn;
- Mae holl Arweinwyr Meysydd Dysgu a Phrofiad yr Athrofa yn cadw goruchwyliaeth ar gymorth sy'n benodol i pwnc ac a ddarperir i ysgolion PDPA;
- Mae'r Arweinwyr Meysydd Dysgu a Phrofiad yn rheoli ac yn cyfarwyddo cymunedau ymarfer (gan gynnwys ymchwil/gweithgarwch ymchwil), trefnu cyfleoedd dysgu cyfunol (webinarau/gweithdai ac ati), ac yn cefnogi cyfnewid gwybodaeth wyneb yn wyneb;
- Mae datblygiad Cymraeg a'r Rhaglen Ysgolion Ymchwil, yn unol â'r cynllun manwl a amlinellwyd yng ngweledigaeth PDPA, yn llinyn na ellir ei drafod sy'n rhedeg trwy'r holl weithgarwch hwn.

## Dysgu proffesiynol

Fel y trafodwyd, partneriaeth o ysgolion a'r brifysgol yw PDPA sy'n cydweithio i greu a darparu rhaglenni dysgu proffesiynol ar draws continwwm addysg athrawon. Nid yw'r rhaglenni hyn yn

gyfyngedig i AGA, wrth gwrs, ac maent yn cynnwys darparu cyfleoedd i athrawon ym mhob cyfnod o'u gyrfa broffesiynol.

O'r herwydd mae PDPA wedi ymrwymo i'r canlynol:

- Datblygu a modelu dull cydweithredol go iawn o ddarparu AGA a dysgu proffesiynol yng Nghymru;
- Cyfrannu at agenda genedlaethol ar gyfer gwella addysg trwy adeiladu capasiti trwy addysg athrawon ar gyfer y gweithlu addysg ehangach.

Mae PDPA hefyd yn anelu at ddarparu portffolio o raglenni sy'n canolbwyntio ar ddatblygu athrawon proffesiynol sydd:

- Yn bodloni'r Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth;
- Yn barod i ddarparu cwricwlwm newydd i Gymru a galluogi plant a phobl ifanc i wireddu eu pedwar diben;
- Yn deall y berthynas rhwng gwybodaeth ddeallusol a phrofiadol ac sy'n gallu arwain ymholiad sy'n canolbwyntio ar effaith gadarnhaol i ddysgwyr;
- Yn athrawon trawsnewidiol sy'n ymgorffori model dysgu trawsnewidiol PDPA.

Yn rhan o'u Cytundeb Dealltwriaeth, mae Ysgolion Arweiniol wedi ymrwymo i wneud y canlynol:

- Sicrhau y caiff staff yn yr ysgol gymorth a mynediad at ddysgu proffesiynol priodol i sicrhau bod modd iddynt ddarparu gwaith mentora a chymorth o ansawdd uchel i fyfyrwyr AGA;
- Trefnu bod cyfleoedd datblygu a phroffesiynol ar gael i staff yr Athrofa yn y brifysgol pan fo'n briodol.

Gallai'r opsiynau gynnwys y canlynol:

- Cefnogi'r staff i gynyddu eu cymwysterau i lefelau 7 ac 8 trwy'r MA mewn Addysg neu'r Ddoethuriaeth mewn Addysg (EdD);
- Rhyddhau staff i gefnogi camau i gyd-greu a chyd-ddarparu rhaglenni dysgu proffesiynol;
- Mynd a chyfrannu i weithdai/seminarau ar gyfer cefnogi arfer sy'n seiliedig ar ymholi;
- Gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth, ymweliadau dysgu, ac ati.

Yn nhymhorau hydref a gwanwyn 2019/20 y flwyddyn academaidd, cynhelir cyfres o weithdai i ddatblygu arlwy broffesiynol PDPA ymhellach. Bydd Ysgolion Arweiniol a rhwydweithiau PDPA yn chwarae rhan ganolog yn y gweithdai hynny. Byddant yn casglu at ei gilydd arbenigedd trawsddisgyblaethol ar draws yr Athrofa (gan gynnwys arbenigedd yn nisgyblaethau Seicoleg, Cwnsela a Chyfiawnder Cymdeithasol); Academi Arfer Proffesiynol ac Ymchwil Cymhwysol Cymru (gynt Athrofa Cymru ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith); Ysgolion Arweiniol a'r tîm Dysgu a Gyfoethogir gan Dechnoleg (TEL).

- I gael rhagor o wybodaeth am yr MA mewn addysg, cysylltwch â Rheolwr y Rhaglen, Junnine Thamas-Wlaters (junnine.thomas-walters@pcydds.ac.uk)

- I gael rhagor o wybodaeth am y Ddoethuriaeth mewn Addysg (EdD), cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Rhaglen, Dr Jane Waters (jane.waters@pcydds.ac.uk) neu ewch i: www.pcydds.ac.uk/doctorate-education